



Older People's Commissioner for Wales  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Llais, Dewis a Rheolaeth

Argymhellion ar gyfer  
darparu eiriolaeth  
annibynnol dros Gymru

Llais ac eiriolwr  
annibynnol ar gyfer pobl  
hŷn ledled Cymru.

## Ein rôl ni

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddyn nhw ddewis a rheolaeth, nad ydyn nhw'n teimlo'n ynysig nac yn dioddef gwahaniaethu, a'u bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau y maen arnyn nhw eu hangen.

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod Cymru yn lle da i heneiddio, nid i rai yn unig ond i bawb.

## Ein gwaith ni

Mae ein gwaith ni bob amser yn cael ei yrru gan yr hyn sy'n cyfrif i bobl hŷn. Rydyn ni wrthi:

- yn hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru
- yn hybu'r arferion gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru
- yn adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

## Sut y gallwn eich helpu

Gallwn helpu pobl hŷn unigol, eu teuluoedd a'u gofalwyr fel hyn:

- Gallwn ymyrryd yn uniongyrchol os ydy person hŷn wedi cael anawsterau gyda darparwydd gwasanaethau
- Gallwn helpu person hŷn i wneud cwyn a monitro sut mae eu cwyn yn cael ei thrafod
- Gallwn helpu pobl hŷn i gysylltu â'r cyrff sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys eu problemau.

Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn Braille, print bras neu sain, cysylltwch osgwelwch yn dda gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

### Ysgrifennwch at:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,  
Adeiladau Cambrian,  
Sgwâr Mount Stuart,  
Caerdydd CF10 5FL

**Ffôn:** 08442 640 670

**Email:** [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)

**Gwefan:** [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

**Twitter:** [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Cynnwys

Fformatau hygyrch	02
Rhagair	04
Yr achos o blaid newid	05
Golwg gyffredinol	06
Y camau nesaf	09
Y Cyd-destun Polisi Ehangach	11
Beth yw ystyr eiriolaeth?	13
Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion	16
Canfyddiadau manwl	21
Casgliad	49
Atodiadau	52
Cyfeiriadau	65
Rhagor o Wybodaeth	66

# Rhagair

Dylai pobl hŷn i gyd deimlo bod ganddynt lais, dewis a rheolaeth dros eu bywyd a'u bod yn cael y cymorth iawn i wneud penderfyniadau doeth, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed. Yn aml, ni fydd pobl hŷn, yn enwedig y rheini sydd mewn cartrefi gofal, yn cael y cymorth priodol i roi llais i'w dymuniadau.

Mae'r adroddiad hwn, y cyntaf imi ei gyhoeddi yn fy swydd fel Comisiynydd, yn dangos na fydd pobl hŷn yn aml iawn yn cael digon o gymorth pan fydd gofyn iddynt wneud penderfyniadau pwysig, nad yw pobl yn deall nac yn defnyddio digon ar wasanaethau eiriolaeth a bod diffyg cysondeb drwy Gymru yn y ffordd y darperir eiriolaeth annibynnol. Mae'r canfyddiadau'n ei gwneud hi'n glir: bod gennym dipyn o ffordd i fynd eto yng Nghymru i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol, lle nad yw pobl yn deall trefniadau eiriolaeth yn llawn, lle mae'r trefniadau hynny'n anghyson a lle nad yw'r gwasanaeth mewn gwirionedd, ar gael yn aml i'r sawl y mae ei angen arnynt.

A minnau'n llais annibynnol ac yn hyrwyddwr ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, rwyf wedi sicrhau bod lleisiau pobl hŷn mewn cartrefi gofal wrth galon yr adroddiad hwn. Buom yn siarad yn uniongyrchol â llawer o bobl hŷn mewn cartrefi gofal ledled Cymru, a chasglwyd tystiolaeth hefyd gan berthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a staff a chyrrff rhanddeiliaid. Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi siarad â ni, ac wedi ein cynorthwyo, i bawb a gyflwynodd dystiolaeth ac i'r holl gartrefi gofal yr ymwelwyd â hwy. Rydym yn gwerthfawrogi'r cydweithrediad hwn yn fawr a thrwy hyn, llwyddwyd i greu darlun o brofiadau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a'r cymorth eiriolaeth sydd ar gael iddynt.

Rwyf wedi rhestru cyfres o argymhellion gyda'r nod o sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y cymorth annibynnol y mae ei angen arnynt i'w galluogi i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau, i gael eu clywed a'u deall, i wneud penderfyniadau pwysig ac i benderfynu drostynt eu hunain, cyn belled ag y bo modd, beth sy'n digwydd yn eu bywyd o ddydd i ddydd.

Bwriedir yr argymhellion hyn ar gyfer Lywodraeth Cymru, cyrff rheoleiddio, comisiynwyr a darparwyr gofal yn y sectorau sy'n cael eu rheoleiddio. Fe welwch o'r camau nesaf yr wyf wedi'u rhestru fy mod yn

benderfynol o gydweithio mewn partneriaeth â'r holl gyrff perthnasol i wneud yn siŵr fod gennym ffordd ymlaen a chymau gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl hŷn.

Rwyf am weld Cymru sydd ar flaen y gad yn darparu gwasanaethau eiriolaeth; Cymru sy'n rhoi llais, dewis a rheolaeth ystyrion yn ôl i bobl hŷn.

## Sarah Rochira

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

---

# Yr achos o blaid newid

Mae llais, dewis a rheolaeth yn bwysig inni i gyd. Mae a wnelo hyn â hunaniaeth, ymreolaeth, hunanfynegiant a hawliau dynol. Heb y pethau hyn, bydd hyder, hunan-falchder a lles rhywun yn dioddef.

Mae eiriolaeth annibynnol yn cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i roi'r pethau hyn ar waith.

Lle bydd pobl hŷn yn ystyried mynd i gartref gofal, ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty, pan fydd perygl i'w cartref gofal gau, neu lle na fydd ganddynt deulu neu ffrindiau'n gefn iddynt, mae'r cyfle sydd ar gael iddynt i arfer eu llais, eu dewis a'u rheolaeth wedi'i gyfyngu'n aml ac mae'r bobl hŷn hyn hefyd yn wynebu sefyllfa lle maent yn arbennig o agored i niwed.

Mae gwaith y Comisiwn yn dangos mai prin yw'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael mewn cartrefi gofal a bod camddealltwriaeth gyffredinol ynglŷn ag ystyr y term eiriolaeth annibynnol.

Mae dadl gref o blaid cryfhau'r eiriolaeth sydd ar gael i bobl hŷn er mwyn rhoi mwy o lais, dewis a rheolaeth iddynt.

# Golwg gyffredinol

Rôl y Comisiwn yw bod yn llais ac yn hyrwyddwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn. Mae ein gwaith i gyd yn cael ei sbarduno gan yr hyn sydd bwysicaf i bobl hŷn, yn ôl yr hyn a ddywedant hwy wrthym.

Un o'r pethau y mae'r Comisiwn wedi cael sylwadau yn ei gylch amlaf yw mater gofal; yn benodol, penderfynu ynglŷn â mynd i gartref gofal, profiadau pobl hŷn mewn cartrefi gofal a phryderon ynglŷn â chau cartrefi gofal. Materion eraill sydd wedi cael eu codi yw cymhlethdod ariannu gofal iechyd parhaus, talu am ofal, a phryderon ynglŷn ag ansawdd y gofal a ddarperir.

Un thema gyson sy'n sail i lawer o'r pryderon a godwyd yw nad oes digon o wybodaeth ar gael i helpu pobl i wneud penderfyniadau anodd ar adeg pan fydd rhywun yn agored i niwed, a bod ymdeimlad cyffredinol o ddiffyg dewis a rheolaeth.

Yn sgil y pryderon parhaus a sylweddol hyn, yn enwedig o ran yr effaith ar fywydau pobl, penderfynodd y Comisiwn gyhoeddi argymhellion ynglŷn â darparu eiriolaeth annibynnol pan fydd pobl yn mynd i gartref gofal, yn byw mewn cartref gofal a phan fydd cartref gofal yn cau. Bydd gwella eiriolaeth a chefnogaeth i bobl hŷn yn un o themâu gwaith parhaus a phwysig y Comisiwn dros y pedair blynedd nesaf.

Cam cyntaf ein gwaith oedd comisiynu Eiriolaeth gyda Phobl Hŷn yng Nghymru - astudiaeth gwmpasu gychwynnoli<sup>i</sup> gan Andrew Dunning ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd yr adroddiad hwn yn un pwysig am ei fod yn gosod llinell sylfaen ar gyfer yr eiriolaeth a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghymru. Dangosodd y gwaith ymchwil nad oedd fawr o ddealltwriaeth o rôl, pwysigrwydd a dylanwad eiriolaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r rheini a allai elwa ohoni, ac felly fod y gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael a'r nifer sy'n manteisio arnynt yn amrywio'n fawr iawn. Roedd hefyd yn argymhell y dylid ystyried eto a oes angen deddfwriaeth fwy cynhwysfawr i ddiwallu anghenion eiriolaeth pobl hŷn.

Cadarnhawyd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn eto yn Pwysigrwydd Eiriolaeth 3<sup>ii</sup> gan Age Cymru a ganfu, er bod llawer o enghreifftiau o arferion da, bod 'loteri cod post' cyffredinol ar waith o ran darparu gwasanaethau eiriolaeth, bod llinell sylfaen isel iawn o eiriolwyr hyfforddedig, bod y ddealltwriaeth o rôl eiriolaeth ar y cyfan yn wael a bod diffyg cyson o ran defnyddio gwirfoddolwyr fel eiriolwyr i gefnogi pobl.

Ac ystyried y corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos pwysigrwydd eiriolaeth a'r pryderon cyson a fynegir gan bobl hŷn mewn gofal, ynghyd â'r diffyg ymchwil penodol i eiriolaeth mewn lleoliadau gofal, comisiynwyd Eiriolaeth a Chartrefi Gofal<sup>iii</sup> (a lansiwyd gan y Dirprwy Weinidog) i archwilio'n benodol y ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol sydd ar gael i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Roedd hyn yn galw am sicrhau bod eiriolaeth yn bwrw gwreiddiau mewn rheoliadau a safonau cartrefi gofal er mwyn adlewyrchu ei statws fel cam gwarchodol pwysig i ddiogelu pobl hŷn.

Cam olaf y gwaith hwn oedd cynnal adolygiad ffurfiol o eiriolaeth mewn cartrefi gofal ledled Cymru i roi llais uniongyrchol iddynt yn y mater hwn. Drwy'r gwaith hwn, llwyddwyd i gysylltu, fel na lwyddwyd erioed o'r blaen â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan siarad â pherthnasau a rheolwyr cartrefi gofal a staff er mwyn archwilio i ba raddau y mae pobl yn deall eiriolaeth a'i gwerth ac i ba raddau y mae'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Defnyddiwyd cyfweiliadau gyda phreswylwyr hŷn i ganfod i ba raddau yr oeddent yn teimlo eu bod yn gallu arfer eu llais, eu dewis a'u rheolaeth ac a oeddent yn gwybod beth oedd rôl eiriolaeth annibynnol ac yn gwybod beth a oedd ar gael iddynt.

Ochr yn ochr â'r uchod, ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad i'r Prif Weinidog yn galw am well canllawiau ar gau cartrefi gofal, yn sgil pryderon sylweddol a godwyd gan bobl hŷn a'u teuluoedd a gwaith ymchwil gan yr Athro Burholt o Brifysgol Abertawe<sup>iv</sup> a oedd yn dangos bod angen adolygu a diweddarau'r canllawiau presennol a hynny ar frys.

Y prif bryderon y tynnwyd sylw atynt yn ein hadroddiad i'r Gweinidog oedd:

- Diffyg eglurder yn y canllawiau presennol ynglŷn â sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith petai'r bygythiad i gau cartref yn dod yn sgil penderfyniad strategol neu bolisi yn hytrach nag oherwydd pryderon ynglŷn ag ansawdd y gofal, pryderon ynglŷn â diogelwch neu hyfywedd ariannol;
- Prosesau ymgynghori aneffeithiol nad oeddent wedi ymgysylltu'n effeithiol â phobl hŷn, ac a oedd, yn sgil hynny, wedi'u gadael yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu, yn agored i niwed ac yn bryderus;
- Ychydig o ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal sydd o

dan fygythiad, yn enwedig Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol i'r bobl hŷn hynny nad oes ganddynt alluedd meddyliol.

Mae gwaith ar y gweill yn awr gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer cau cartrefi gofal.

Yng Nghymru, mae gennym lawer o staff ymroddedig ar y rheng flaen mewn lleoliadau gofal sydd ar dân eisiau sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y lleoliadau hynny'n cael bywyd o ansawdd da, ac mae rhai enghreifftiau o arferion da i'w gweld ym maes eiriolaeth. Serch hynny, oherwydd diffyg deall pwysigrwydd rôl eiriolaeth yn gyffredinol a diffyg deall eiriolaeth annibynnol yn benodol, mae llawer o bobl hŷn yn cael eu hamddifadu o'r gwasanaeth hwn ar adegau hollbwysig yn eu bywyd. Er bod nifer o enghreifftiau o arferion da ledled Cymru, rydym yn rhy fodlon o lawer goddef y gwahaniaethau, ac yn sgil hynny, rydym yn gwneud cam â llawer o bobl hŷn a hynny ar rai o'r adegau pan fydd angen cymorth arnynt fwyaf. Rhai meysydd sy'n destun pryder penodol yw'r adegau hynny pan fydd angen penderfynu ynglŷn â mynd i ofal, cymorth pan fydd cartref gofal yn cau a phenderfyniadau o ddydd i ddydd pan fydd rhywun yn byw mewn lleoliad gofal.

Mae'r uchod i gyd yn creu darlun clir iawn. Rydym yn gwneud cam â phobl hŷn a hynny ar yr adeg pan fydd angen cymorth arnynt fwyaf, oherwydd nad yw pobl yn deall gwerth eiriolaeth yn iawn ac oherwydd nad yw ein hagwedd at ddefnyddio eiriolaeth annibynnol yn ddigon da. Mae angen i hyn newid.

Mae'r adolygiad hwn yn rhestru cyfres o argymhellion syml i gyrff cyhoeddus gan gynnwys i lywodraeth genedlaethol a lleol, i Fyrddau Iechyd Lleol ac i'r rheini sy'n cynrychioli'r sector gofal annibynnol, gyda'r nod o gryfhau llais, dewis a rheolaeth pobl hŷn, a hynny'n systematig drwy Gymru, drwy ddealltwriaeth well a chynyddol o'r defnydd penodol o eiriolaeth annibynnol a thrwy gynyddu'r llinell sylfaen o wybodaeth am rôl a phwysigrwydd eiriolaeth.

Wrth ddatblygu a nodi ein hargymhellion, rydym wedi adlewyrchu lleisiau pobl hŷn a phobl eraill a fu'n ymgysylltu â ni. Rydym hefyd wedi defnyddio'r wybodaeth helaeth a gasglwyd gennym drwy ein gwaith ymchwil a'r ohebiaeth ysgrifenedig â detholiad o gartrefi gofal ledled Cymru, a phob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol, yn ogystal â thrwy grwpiau ffocws ag Arolygwyr a darparwyr eiriolaeth.

Disgwyliwn i'r argymhellion hyn arwain at newid mawr a pharhaol yn y ffordd y gwelir ac y deallir eiriolaeth, ac at fwy o gysondeb a gwell safon o ran gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru sy'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan bobl hŷn a chan y rheini sy'n eu cefnogi.



# Y camau nesaf

Ar ôl cyhoeddi ein hargymhellion, bydd y Comisiwn yn cymryd y camau canlynol i gefnogi a sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn gwella gyda golwg ar ymwybyddiaeth o eiriolaeth a defnyddio eiriolaeth annibynnol i bobl o dan yr amgylchiadau penodol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

## Rhwng Medi a Tachwedd 2012

Y Comisiwn yn ymgynghori ynglŷn â'r argymhellion.

## Rhwng Tachwedd 2012 a Mawrth 2013

Y Comisiwn yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu amrywiaeth o arfau a dulliau cymorth i sicrhau arferion da, gan gynnwys arfau archwilio, i sicrhau bod mwy o wasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio rhagor, gan gynnwys drwy rôl gwirfoddoli.

## Ebrill 2013

Y Comisiwn yn cyhoeddi canllawiau arferion da (o dan Adran 12 o Ddeddf Comisiwn Pobl Hŷn (Cymru)).

## Ebrill 2014

Y Comisiwn yn cynnal adolygiad arall o'r ddarpariaeth, gan ddisgwyl gweld gwelliant o ran y ffordd y gwelir ac y deellir eiriolaeth, a mwy o gysondeb a gwell safon o ran gwasanaethau eiriolaeth ledled Cymru sy'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan bobl hŷn.

## Canlyniadau cyffredinol

Bwriedir i'r rhaglen waith hon sicrhau bod:

- Staff gofal yn deall ac yn hyrwyddo cysyniad llais, dewis a rheolaeth a rôl eiriolaeth yn hyn
- Bod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth, gan gynnwys o rôl ac effaith eiriolaeth annibynnol, ledled Cymru
- Bod pobl hŷn mewn sefyllfaoedd allweddol lle maent yn agored i niwed ac yn gwneud penderfyniadau hollbwysig ynglŷn â symud i leoliad gofal cymdeithasol neu newid lleoliad, yn gwybod am yr wybodaeth, y cyngor a'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael ac yn gallu cael gafael arnynt.

- Bod ymwybyddiaeth o'r rôl, a thystiolaeth o ddefnyddio eiriolaeth annibynnol yn bwrw gwreiddiau yn y trefniadau rheoleiddio ac arolygu
- Bod agwedd gydlynol a chyson at gomisiynu, contractio, darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth annibynnol effeithiol ledled Cymru

## Argymhellion tymor byr

Yng nghorff yr adroddiad hwn, rhestrir ein prif feysydd ar gyfer sicrhau gwelliannau tymor hwy. Serch hynny, rydym wedi rhestru pedwar cam y byddem yn disgwyl eu gweld a fyddai'n effeithio ar unwaith ar ddarparu eiriolaeth annibynnol. Mae'r Comisiwn yn argymhell:

1. Y dylid cynnwys ymrwymiad ar wyneb y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) i gryfhau'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol (gweler tudalen 11)
2. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau cryfach ynglŷn â chau cartrefi gofal
3. Bod awdurdodau lleol yn nodi llinell sylfaen ar gyfer y ddarpariaeth bresennol a'r angen am eiriolaeth annibynnol yn y dyfodol yn yr ardaloedd lle maent yn gweithio
4. Bod yr holl bobl hŷn sy'n ystyried symud i leoliad gofal yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol sydd ar gael ar y pryd a manylion am sut mae cael gafael arnynt

# Y Cyd-destun Polisi Ehangach

Mae sawl llinyn gwaith pwysig arall yn cael ei ddatblygu yng Nghymru sy'n uniongyrchol gysylltiedig â dyheadau ac argymhellion yr adroddiad hwn ac yn gydnaws â hwy.

## **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)**

Bwriad y Bil yw rhoi llais a dewis i bobl hŷn. Ein barn ni yw mai un maes pwysig lle y mae angen cryfhau'r Bil yw ym maes gwasanaethau eiriolaeth. Rhaid iddo gynnwys cyfeiriad penodol at ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i bobl a all fod mewn sefyllfa agored i niwed, ni waeth a dybir bod ganddynt alluedd neu beidio fel rhan o ddiffiniad ffurfiol o ofal cymdeithasol. Mae ein hymateb i'r Bil<sup>y</sup> yn ei gwneud hi'n glir na fydd yn gwireddu ei ddyheadau oni fydd yn cynnwys cyfeiriad fel hyn. Mae amseru'r adroddiad hwn yn fwriadol er mwyn iddo fod yn sail i ddatblygu'r Bil wrth iddo gamu ymlaen i'r broses ddeddfu.

## **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru**

Roedd rhaglen fusnes Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth eiriolaeth ac mae'n ymrwymo'n gadarn ac yn ddi-droi'n-ôl i ddatblygu dadl fusnes o blaid gwasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn. Ein barn ni yw y dylid bwrw ymlaen â hyn fel rhan o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ac y dylid ei seilio ar yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn.

## **Cydymffurfio â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i gyfarwyddo Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol**

Drwy'r gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud yn sail i'r adroddiad hwn, codwyd pryderon ynglŷn ag i ba raddau y mae'r rheini y mae arnynt ddyletswydd statudol yn cyflawni, yn y lleoliad cartref gofal, eu dyletswyddau cyfreithiol yng nghyswllt Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol i bobl y bernir eu bod heb alluedd ac nad oes ganddynt berthnasau na chyfeillion agos, pan wneir penderfyniadau ynglŷn â thriniaeth feddygol ddifrifol neu newid man preswyllo, er enghraifft, symud i gartref gofal neu oddi yno. Mae angen i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol sydd ar gael yn eu hardal leol a pha mor aml y cyfarwyddir Eiriolwyr i wneud y gwaith hwn. Byddwn yn ystyried a oes angen i'r Comisiwn fynd i'r afael â hyn yn benodol fel llinyn gwaith ar wahân a chyhoeddi arweiniad ar wahân.

## **Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Ofal Preswyl i Bobl Hŷn**

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn. Mae'r Comisiwn eisoës wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r pwyllgor ar sail y dystiolaeth a roddwyd inni gan bobl hŷn, a ninnau'n hyrwyddwr annibynnol ar eu cyfer. Cyflwynir yr adroddiad hwn yn dystiolaeth bellach i'r pwyllgor. (Gweler y cylch gorchwyl yn Atodiad 3).

# Beth yw ystyr eiriolaeth?

Mae ein gwaith wedi'i gwneud yn glir bod camddealltwriaeth sylweddol ynglŷn ag ystyr eiriolaeth, ac mae nifer o wahanol ddiffiniadau ar gael. Mae Atodiad 1 yn cynnig amrywiaeth o wahanol ddiffiniadau, gan gynnwys hwnnw a ddefnyddir gan Gynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn (OPAAL) a Gweithredu dros Eiriolaeth. Serch hynny, er ei bod yn fuddiol cael iaith gyffredin, ar weithredu y dylem fod yn canolbwyntio yng Nghymru, ac nid ar eiriau.

**At ddibenion ein Hadolygiad, penderfynwyd canolbwyntio'n benodol ar ddau faes: gwella'r ddealltwriaeth o rôl a dylanwad cyffredinol eiriolaeth, ac ar drefniadau eiriolaeth annibynnol.**

Daw eiriolaeth ar sawl lliw a llun arall. Mae'n amrywio o hunaneiriolaeth, a hynny'n aml gyda chymorth gwirfoddol gan gyrrff y trydydd sector i eiriolaeth statudol, lle bydd gan unigolion, o dan amgylchiadau penodol, hawl gyfreithiol i gael gwasanaeth eiriolydd annibynnol a chael cymorth ganddo.

Dangosir hyn ar yr "ysgol" eiriolaeth isod:

- **Hunaneiriolaeth**, sy'n golygu yn ei hanfod 'siarad drosoch chi'ch hun' gan fynegi eich anghenion, eich dymuniadau a'ch buddiannau eich hun.
- **Cydeiriolaeth**, grwpiau a chyrrff hunaneiriolaeth sy'n cynnig cyd-gymorth, yn datblygu sgiliau ac yn galw am newid gyda'i gilydd.
- **Eiriolaeth gan gymheiriaid** bydd hyn yn digwydd lle bydd un unigolyn yn eiriol ar ran un arall sy'n wynebu profiad, anhawster neu wahaniaethu tebyg.
- **Eiriolaeth gan ddinesydd** partneriaeth un-ac-un a thymor hir rhwng 'unigolyn cyffredin' annibynnol, di-dâl a 'phartner' sydd o dan anfantais.
- **Eiriolaeth gan wirfoddolwr** mae'n annibynnol ac yn ddi-dâl, ond efallai y bydd yr eiriolydd yn gweithio gyda nifer o bartneriaid ar sail tymor byr neu waith achos.
- **Eiriolaeth gyda thâl** mae'n disgrifio rôl gweithwyr eiriolaeth sydd â'r un nodweddion ag eiriolwyr gwirfoddol ond fe'u telir am y dasg.

- **Eiriolaeth broffesiynol** fe all hyn gyfeirio at rôl eiriolaeth rannol gan staff mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a lleoliadau eraill.
- **Eiriolaeth gyhoeddus** mae hyn yn disgrifio gweithgareddau sefydliadau sy'n ymgyrchu ar ran grŵp penodol o bobl neu ar fater sy'n effeithio ar nifer o bobl.
- **Eiriolaeth gyfreithiol**, sef y ffurf fwyaf sefydledig a'r un fwyaf adnabyddus

Ffynhonnell: Gweithredu dros Eiriolaeth

## **Manteision eiriolaeth annibynnol i bobl mewn sefyllfaoedd allweddol lle maent yn agored i niwed (mynd i leoliad gofal o'r ysbyty, byw mewn lleoliad gofal, wynebu cau cartref gofal)**

Dengys y gwaith ymchwil, hyd yn oed pan fydd gan bobl hŷn deulu neu weithwyr proffesiynol o'u cwmpas y maent yn dibynnu arnynt am ofal a chymorth, eu bod yn dal i deimlo'n ddiymadferth neu'n teimlo na allant leisio'u barn. O dan amgylchiadau fel hyn, efallai y byddant yn teimlo'i bod yn anodd neu'n amhosibl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau pwysig sy'n cael eu gwneud am eu bywyd, neu sy'n effeithio arnynt, gan atgyfnerthu unwaith eto eu hymdeimlad o fod yn ddiymadferth.

### **Gall gwasanaethau eiriolaeth annibynnol:**

- chwarae rhan hollbwysig drwy ddarparu cymorth lle na fydd unigolion yn gallu siarad drostynt eu hunain
- bod yn gam ataliol er mwyn diogelu pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin
- cefnogi safonau uwch a gwell arferion mewn gofal
- helpu preswylwyr i egluro'u safbwyntiau a'u dymuniadau, i fynegi'r safbwyntiau hynny'n effeithiol ac i ennyn parch at yr hyn sydd orau ganddynt a'u dewisiadau
- helpu i drafod a datrys gwrthdaro

- sicrhau gwell gwasanaethau cymorth i bobl pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig er mwyn osgoi problemau neu argyfyngau fel na fydd cymaint o angen trefnu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r problemau hynny
- ategu'r cymorth gwerthfawr a ddarperir gan deulu, cyfeillion, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol

Mae eiriolaeth annibynnol o fudd i ddarparwyr gwasanaethau hefyd oherwydd fe all:

- helpu i ddatrys anawsterau a chynorthwyo i gydymffurfio â safonau gofal
- darparu fframwaith i gynorthwyo gyda phenderfyniadau a thrafodaethau anodd
- helpu staff i gynorthwyo'r preswilydd i ddatrys problemau a chadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion, dymuniadau a pheryglon.
- arwain at well defnydd ar yr adnoddau sydd ar gael drwy weld ymhle mae'r bylchau ac ymhle mae pethau'n cael eu dyblygu
- creu darparwyr gwasanaethau sy'n fwy gwybodus ac sy'n gallu diwallu anghenion pobl hŷn yn well eu hunain, neu'n gallu eu hatgyfeirio'n fwy priodol at asiantaethau eraill os bydd angen
- helpu i greu diwylliant agored lle y gall diogelwch, parch ac urddas ffynnu
- helpu i greu diwylliant agored lle y gall diogelwch, parch ac urddas ffynnu

Pan fydd eiriolaeth annibynnol ar gael, dylid ystyried hynny'n arwydd pwysig bod y ddarpariaeth breswyl i bobl hŷn yn dda ac yn addas at y diben. Mae'n ffactor pwysig wrth ddarparu gwasanaeth sy'n rhoi'r preswilydd flaenaf yn y ddarpariaeth yn hytrach na systemau, prosesau a threfniadau ac mae'n ffordd hollbwysig i rymuso pobl hŷn mewn cartrefi preswyl er mwyn iddynt fynegi eu dymuniadau, sicrhau eu hawliau, cynrychioli eu buddiannau a chael y gwasanaethau penodol y mae eu hangen arnynt. Mae'n hollbwysig er mwyn sicrhau gwasanaeth da gan hybu cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder ar yr un pryd.

# Crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion

Mae'r adrannau uchod yn dweud bod angen y canlynol, gan roi'r rhesymau dros ddweud hynny: deall eiriolaeth yn well, cynyddu'r ddarpariaeth, a sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael ac yn cael ei defnyddio'n fwy helaeth mewn tair sefyllfa benodol (mynd i leoliad gofal o'r ysbyty, byw mewn lleoliad gofal a wynebu cau cartref gofal). Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn sôn yn fanwl am bum maes pwysig lle y mae angen gwella pethau'n systematig ac yn systemig ac mae hefyd yn cynnig argymhellion ynglŷn â hynny.

## 1 Llais, dewis a rheolaeth o ddydd i ddydd

Mae rhai pobl hŷn nad oes ganddynt lais, dewis na rheolaeth dros eu hamgylchedd byw na'u bywyd bob dydd. Mae pobl yn camddeall beth yw gwir ystyr llais, dewis a rheolaeth ystyrllon. Gall hyn olygu bod rhai'n mynd i'w cragen yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Weithiau mae cydymffurfio'n cael ei gamddehongli, a chymerir bod unigolyn hŷn yn hapus ac yn derbyn pethau, er ei fod mewn gwirionedd yn ildio i sefyllfa nad oes ganddo unrhyw reolaeth drosti.

## 2 Deall a gwybod beth yw rôl a dylanwad gwasanaethau eiriolaeth

Mae llawer o breswylwyr, perthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a staff cartrefi gofal nad ydynt yn deall y term eiriolaeth annibynnol mewn ffordd gyson. Mae barn gul wedi datblygu sy'n ei weld yn gyfystyr â diogelu, datrys anghydfodau a chwynion. Ymddengys hefyd nad oes digon o hyfforddiant ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth ar gael i reolwyr a staff cartrefi gofal. Mae diffyg ymwybyddiaeth amlwg ymhlith preswylwyr o fodolaeth eiriolaeth ac, yn fwyaf arbennig, ynglŷn â sut ac o dan ba amgylchiadau y gallent ei defnyddio.



### 3

## Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael mewn lleoliadau penodol a phobl yn gallu cael gafael arnynt

Ni fydd pobl hŷn bob tro'n cael cymorth pan fyddant yn gorfod gwneud penderfyniadau pwysig a phan fydd eu sefyllfa'n newid oherwydd nad oes digon o wasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gael neu oherwydd na allant gael gafael arnynt. Mae eiriolaeth annibynnol yn arbennig o bwysig o dan rai amgylchiadau penodol, gan gynnwys pan fydd pobl hŷn yn mynd i gartref gofal neu pan fyddant yn wynebu cau cartref gofal.

### 4

## Arolygu, Monitro a Darparu

Nid oes trefniadau cyson a chynhwysfawr ar gyfer arolygu a monitro'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol. Mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o eiriolaeth. Mae rôl AGGCC yn hollbwysig o ran cefnogi proffil a phwysigrwydd eiriolaeth mewn cartrefi gofal ac mae angen codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth a darparu hyfforddiant yn ei chylch i staff yr Arolygiaeth.

### 5

## Comisiynu a Chontractio

Nid oes cysondeb na fframwaith clir i'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol bresennol. Nid oes dull cydlynol a chyson o asesu angen a chynllunio ar gyfer darparu ac ariannu eiriolaeth ar hyn o bryd. Nid yw contractau comisiynu gyda chartrefi gofal yn nodi'n benodol pa drefniadau a ddylai fod ar waith gan gartrefi gofal ar gyfer eiriolaeth annibynnol.

Drwyddi draw, mae'n amlwg o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud nad yw eiriolaeth annibynnol i bobl sydd mewn sefyllfaoedd penodol lle y maent mewn perygl neu'n agored i niwed, gystal ag y mae angen iddi fod. Rhaid i bethau wella'n systematig a rhaid cynnal y gwelliant hwnnw.

## Argymhellion tymor byr

Rhestrir ein prif feysydd ar gyfer sicrhau gwelliannau tymor hwy yng nghorff yr adroddiad hwn. Serch hynny, rydym wedi rhestru pedwar cam y byddem yn disgwyl eu gweld a fyddai'n effeithio ar unwaith ar ddarparu eiriolaeth annibynnol. Mae'r Comisiwn yn argymhell:

1. Y dylid cynnwys ymrwymiad ar wyneb y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) i gryfhau'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol
2. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau cryfach ynglŷn â chau cartrefi gofal
3. Bod awdurdodau lleol yn nodi llinell sylfaen ar gyfer y ddarpariaeth bresennol a'r angen am eiriolaeth annibynnol yn y dyfodol yn yr ardaloedd lle y maent yn gweithio
4. Bod yr holl bobl hŷn sy'n ystyried symud i leoliad gofal yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol sydd ar gael iddynt a manylion am sut mae cael gafael arnynt

## Argymhellion eraill

### Adran 1: Llais, dewis a rheolaeth o ddydd i ddydd

Dylai darparwyr cartrefi gofal:

- a. Annog diwylliant mewn cartrefi gofal sy'n hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth i bob preswilydd a lle bydd staff yn deall eu rôl a rôl gwasanaethau eiriolaeth eraill
- b. Sicrhau bod ymwybyddiaeth o hyn a phwysigrwydd eiriolaeth annibynnol yn bwrw gwreiddiau mewn hyfforddiant i staff.
- c. Dylai cartrefi gofal gadw cofnod ysgrifenedig o anghenion preswylwyr o ran eiriolaeth ac unrhyw a gymerwyd i fodloni'r anghenion hynny
- d. Adolygu i ba raddau y mae pobl hŷn yn cael llais, dewis a rheolaeth o ddydd i ddydd, gan ddefnyddio barn pobl hŷn yn sail ar gyfer gwerthuso, a chyhoeddi'r canlyniadau.

## **Adran 2: Deall a gwybod beth yw rôl a dylanwad gwasanaethau eiriolaeth**

- a.** Dylai'r achos busnes a gynllunnir gan Lywodraeth Cymru dynnu sylw at bwysigrwydd eiriolaeth, ac eiriolaeth annibynnol yn benodol, o ran rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl
- b.** Dylid sicrhau bod rôl a dylanwad gwasanaethau eiriolaeth, a rôl benodol eiriolaeth annibynnol o fewn hynny, yn bwrw gwreiddiau mewn hyfforddiant i reolwyr a staff cartrefi gofal
- c.** Ni ddylid cysylltu eiriolaeth annibynnol â phryderon ynglŷn â chartref gofal, cwyno neu ddatrys anghydfod yn unig
- d.** Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr cartrefi gofal gynnal archwiliadau i weld sut mae eiriolaeth annibynnol yn cael ei defnyddio, gan gyfeirio'n benodol at yr amgylchiadau lle y'i defnyddiwyd.

## **Adran 3: Y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol sydd ar gael mewn lleoliadau penodol a gallu pobl i gael gafael arnynt**

- a.** Dylai'r achos busnes a gynllunnir gan Lywodraeth Cymru gyfeirio'n benodol at rôl eiriolaeth i bobl sy'n mynd i leoliad gofal o'r ysbyty, sy'n byw mewn lleoliad gofal, neu sy'n wynebu cau cartref gofal.
- b.** Dylai Comisiynwyr awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, a chartrefi gofal:
  - Restru'r prif adegau pan roddir gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn a phan gynigir cyfle iddynt fanteisio ar eiriolaeth annibynnol.
  - Bod yn glir ynglŷn â sut y byddant yn ymdrin â'r sefyllfa lle na fydd gan rywun hŷn alluedd neu lle bydd ei alluedd yn mynd a dod, neu lle na fydd ganddo berthnasau'n gefn iddo.
  - Cynyddu'r ddarpariaeth a hwyluso mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru, gan sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu dal yn atebol am alluogi pobl hŷn i gael gafael ar eiriolaeth annibynnol.
- c.** Bod yr holl staff sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n mynd i leoliad gofal o'r ysbyty, sy'n byw mewn lleoliad gofal, neu sy'n wynebu cau cartref gofal yn cael eu hyfforddi ynglŷn â rôl a manteision eiriolaeth o dan yr amgylchiadau penodol hyn.

#### **Adran 4: Arolygu, Monitro a Darparu**

Dylai AGGCC:

- a.** Ffonitro ac arolygu'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael i breswylwyr cartrefi gofal ac i ba raddau y mae rheolwyr a gweithwyr eraill wedi cael eu hyfforddi i ddeall manteision a rôl eiriolaeth annibynnol.
- b.** Sicrhau bod arolygiadau o gartrefi gofal yn cynnwys gwerthuso'r cofnod o anghenion pobl hŷn yng nghyswllt eiriolaeth ac unrhyw gamau a gymerwyd i ddiwallu'r anghenion hynny.
- c.** Cryfhau'r ddarpariaeth o fewn safonau gofal ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth.
- d.** Cyhoeddi canllawiau i Gomisiynwyr, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal yng Nghymru sy'n dweud y dylid ymgorffori egwyddorion hawliau dynol ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn y broses gomisiynu a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl hŷn.

#### **Adran 5: Comisiynu a Chontractio**

- a.** Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wella trefniadau comisiynu, contractio a monitro gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru drwy:
  - Ddull cydlynol a chyson o asesu anghenion a chynllunio ar gyfer darparu eiriolaeth yn eu hardal.
  - Mynnu bod cartrefi gofal yn darparu tystiolaeth bod staff yn ymwybodol o fanteision a rôl eiriolaeth annibynnol.
  - Mynnu bod cartrefi gofal yn dangos eu bod yn hyrwyddo ac yn galluogi darparu eiriolaeth annibynnol
  - Mynnu bod cartrefi gofal yn dangos eu bod yn hyrwyddo ac yn galluogi darparu eiriolaeth annibynnol
- b.** Dylai Llywodraeth Cymru wella comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol effeithiol ledled Cymru drwy
  - sicrhau bod yr achos busnes a gynllunnir ganddi ar gyfer eiriolaeth yn annog ymagwedd gydlynol a chyson at asesu anghenion a chynllunio ar gyfer darparu eiriolaeth
  - Mynnu bod eiriolaeth annibynnol yn rhan hanfodol o'r broses gomisiynu

# Canfyddiadau manwl

## 1 Llais, dewis a rheolaeth o ddydd i ddydd

Mae llais, dewis a rheolaeth yn bwysig. Mae a wnelo hyn â hunaniaeth, ymreolaeth, hunanfyneiant a hawliau dynol. Serch hynny, yn aml iawn, maent yn cael eu camddechongli drwy eu cysylltu â threfniadau a gweithgareddau beunyddiol, yn hytrach nag â phenderfyniadau pwysig bywyd. Mae'r camddealltwriaeth hwn, ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth o eiriolaeth annibynnol, yn gallu arwain at sefyllfa lle bydd hyder, hunan-barch, iechyd a lles rhywun yn dioddef.

### Prif Bwyntiau

- Mae rhai pobl hŷn nad oes ganddynt reolaeth dros eu hamgylchedd byw na dewis yn eu bywyd bob dydd. Gall hyn olygu bod rhai'n mynd i'w cragen yn gymdeithasol ac yn emosiynol.
- Weithiau, bydd cydymffurfio'n cael ei gamddechongli, gan gymryd bod rhywun hŷn yn fodlon ar bethau, er ei fod mewn gwirionedd yn ildio i sefyllfa nad oes ganddo unrhyw reolaeth drosti.

### 1.1 Bywyd mewn cartref gofal a gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd

Yn ystod ein hymchwil, gofynnwyd i breswylwyr beth roeddent yn ei hoffi fwyaf neu beth nad oeddent yn ei hoffi ynglŷn â'r cartref gofal lle roeddent yn byw. Gwelwyd y preswylwyr yn defnyddio 4 prif fesurydd i asesu eu bodlonrwydd â'r cartref gofal: pa mor gartrefol oedd yr amgylchedd ffisegol, pa mor gyfeillgar oedd y staff gofal, y berthynas roeddent wedi'i meithrin gyda phreswylwyr eraill a'u hymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd o wybod bod gofawyr ar gael 24 awr y diwrnod.

Clywsom nifer o adroddiadau cadarnhaol gan breswylwyr ynglŷn â byw mewn cartref gofal.

**“Mae e’n lle gwych. Maen nhw fel teulu, y bobl sy’n byw yma. Rydyn ni i gyd yn ffrindiau, pobl fel fi a’r gofalwyr.”**

**(Preswlydd)**

**“Rydyn ni’n cael popeth rydyn ni ei eisiau...mae hi mor gartrefol ac mae pawb yn ffrindiau yma, y staff a phawb...Mae pawb wedi bod yn garedig iawn efo fi yma ers dwy flynedd a hanner a does gen i ddim cwynion ynglŷn â’r lle”**

**(Preswlydd)**

Mynegwyd rhwystredigaeth gan bobl hŷn y buom yn siarad â hwy oherwydd eu bod yn methu â dychwelyd i’w cartrefi neu fyw’n annibynnol.

**“Fyddwn i’n hoffi bod gartre, wyddoch chi, ond fel mae pethau nawr, a finnau fel yr ydw i, o ran iechyd, alla i ddim mynd adref. Ond fe fyddwn i, fel rwy wedi dweud o’r blaen, fe fyddwn i’n mynd adref pe bawn i’n gallu a chael gofalwyr.”**

**(Preswlydd)**

**“Dydw i ddim yn hoffi bod yma, rydw i’n hoffi’r bobl, ond dydw i ddim yn hoffi byw yma ...nid dyma’r math o fywyd i mi”**

**(Preswlydd)**

Roedd cryn dipyn o ddementia a namau gwybyddol ymhlith preswylwyr y cartrefi gofal yr ymwelsom â hwy. Cyfeiriodd rhai o’r preswylwyr y buom yn siarad â hwy at hyn ac egluro sut brofiad oedd byw mewn amgylchedd gofal lle roedd gallu gwybyddol y preswylwyr yn amrywio.

**“Dydy rhai ohonyn nhw [preswylwyr] ddim yn eu hiawn bwyll [dementia]. Mae’n fy mhoeni i pan fydda i’n meddwl am y peth.”**

**(Preswlydd)**

Gwelsom fod rhai preswylwyr yn sôn am strategaethau osgoi a oedd yn aml yn golygu eu bod yn aros yn eu hystafelloedd, ar wahân i’w cydbreswylwyr.

Gwelsom fod rhai'n tybio mewn cartrefi gofal bod gofyn am safbwynt a barn preswylwyr ynglŷn â'u hanghenion sylfaenol o ran cysur a gofal yn golygu bod ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywyd. Roedd hyn yn cynnwys beth roeddent am ei gael i'w fwyta, beth roeddent am ei wisgo ac am faint o'r gloch roeddent am godi/mynd i'r gwely. Roedd llawer o breswylwyr wedi dod i gysylltu hyn â gofal 'da'. Er bod dylanwadau dros y mathau hyn o benderfyniadau'n eithriadol o bwysig, dim ond rhan yw hyn o gael llais, dewis a rheolaeth ystyrlon.

**“O, maen nhw'n dod i ofyn, ydach chi'n iawn, oes 'na rywbeth arall ydach chi ei angen ac ati...”**

**(Preswilydd)**

Gwelsom fod strwythurau a threfniadau rheolaidd y cartref gofal yn dylanwadu'n drwm ar lawer o'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud o ddydd i ddydd gan y preswylwyr. Sylwasom fod llawer o'r preswylwyr, er eu bod yn teimlo bod ganddynt ryddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain gan mwyaf, yn gwneud hynny o fewn ffiniau penodol.

**“...nhw [staff gofal] sy'n penderfynu [faint o'r gloch i godi yn y bore].  
Ro'n i wedi codi bore 'ma am chwarter i chwech dw i'n meddwl”**

**(Preswilydd)**

**“Gewch chi godi fel y mynnwch chi. Ond rydan ni'n teimlo bod y staff nos eisiau mynd adre...”**

**(Preswilydd)**

Mewn llawer o achosion, gwelsom fod pobl hŷn yn ildio i strwythurau a threfniadau rheolaidd yr amgylchedd gofal er mwyn cynyddu eu siawns o gael eu derbyn i ddiwylliant y cartref. Yn ein gwaith cwmpasu, gwelsom waith ymchwil a oedd yn galw am well dealltwriaeth o effaith gwneud penderfyniadau ar y modd y mae pobl hŷn yn addasu i fywyd mewn cartref gofal lle byddai eiriolaeth yn chwarae rhan bwysig.

Dyweddod llawer o breswylwyr hefyd fod eu teuluoedd (a oedd naill ai'n byw gerllaw neu a oedd yn ymweld bob dydd) a staff y cartref gofal yn ymwneud â gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd drostynt. Dywedodd rhai preswylwyr eu bod yn fodlon gadael i'r staff gofal benderfynu sut yr oedd y cartref gofal yn cael ei redeg ac nad oeddent yn dymuno ysgwyddo baich gwneud penderfyniadau.

**“Mae yna bobl eraill, rhai clyfrach na fi, sy'n ddigon abl i wneud hynny [gwneud penderfyniadau], wyddoch chi.”**

**(Preswilydd)**

**“Na, does gen i ddim teulu o gwbl yma...mae gen i ffrindiau o blith y staff, mae [enw gofalwr] yn un ohonyn nhw...mae hi reit dda...mae hi yma ers blynyddoedd”**

**(Preswilydd)**

Ar gyfer penderfyniadau pwysicach, materion sy'n ymwneud ag arian neu iechyd fel rheol, roedd preswylwyr yn cynnwys perthnasau yn y broses gwneud penderfyniadau os oedd hynny'n bosibl. Dywedodd y preswylwyr hynny nad oedd ganddynt lawer o deulu i'w cefnogi, os o gwbl, y byddent yn troi at staff gofal am gyngor a chefnogaeth.

Ni ddywedodd yr un o'r preswylwyr y buom ni'n siarad â hwy ei fod wedi gweld eiriolydd nac wedi siarad ag un ynglŷn â gwneud penderfyniad pwysig, hyd yn oed mewn cartrefi gofal lle gwyddid bod darpariaeth eiriolaeth reolaidd ar gael. Mae staff cartrefi gofal yn priodoli'r nifer fach sy'n manteisio ar eiriolaeth mewn cartrefi gofal yn rhannol i'r ffaith fod cynifer o breswylwyr heb alluedd meddyliol i ofyn amdani neu i'w cheisio. Dywedodd rhai, fodd bynnag, mai dim ond y rhai hynny sydd heb deulu i'w helpu neu sydd heb alluedd meddyliol a ddylai fod yn gymwys i'w chael.



## Adran 1 Argymhellion

### Dylai darparwyr cartrefi gofal :

- a. Annog diwylliant mewn cartrefi gofal sy'n hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth i bob preswlydd a lle bydd staff yn deall eu rôl a rôl gwasanaethau eiriolaeth eraill
- b. Sicrhau bod ymwybyddiaeth o hyn a phwysigrwydd eiriolaeth annibynnol yn bwrw gwreiddiau mewn hyfforddiant i staff.
- c. Dylai cartredi gofal gadw cofnod ysgrifendedig o anghenion preswylwyr o ran eiriolaeth ac unrhyw a gymerwyd i fodloni'r anghenion hynny
- d. Adolygu i ba raddau y mae pobl hŷn yn cael llais, dewis a rheolaeth o ddydd i ddydd, gan ddefnyddio barn pobl hŷn yn sail ar gyfer gwerthuso, a chyhoeddi'r canlyniadau.

### Canlyniad cyffredinol:

**Mae'r staff gofal yn deall ac yn hyrwyddo cysyniad llais, dewis a rheolaeth a rôl eiriolaeth yn hyn.**

## 2

## Deall a gwybod beth yw rôl a dylanwad gwasanaethau eiriolaeth

Y man cychwyn ar gyfer unrhyw welliant sy'n sicrhau bod pobl hŷn yn teimlo bod ganddynt lais, dewis a rheolaeth, a bod hynny'n digwydd, yw sicrhau gwelliant cyffredinol sylweddol yn y ffordd y bydd pobl yn deall rôl eiriolaeth, yn gyffredinol ac o dan amgylchiadau penodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff y rheng flaen. O fewn y diffyg dealltwriaeth ehangach, mae diffyg dealltwriaeth yn arbennig ynglŷn ag eiriolaeth annibynnol. Mae ein gwaith wedi dangos nad yw eiriolaeth annibynnol yn derm y mae preswylwyr, perthnasau na staff ar y cyfan yn ei ddeall.

### Prif Bwyntiau

- Mae llawer o breswylwyr, perthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a staff cartrefi gofal nad ydynt yn deall y term eiriolaeth annibynnol mewn ffordd gyson.
- Maent yn aml yn camddehongli hyn gan feddwl mai ffordd o ddiogelu pobl a datrys anghydfodau a chwynion yw eiriolaeth.
- Mae dryswch hefyd ynglŷn â beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio eiriolwyr.
- Mae rhai rheolwyr cartrefi gofal yn ofni bod eiriolaeth yn awgrymu bod safonau'r gofal yn wael.
- Ymddengys hefyd nad oes digon o hyfforddiant yn gyffredinol ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth ar gael i reolwyr a staff cartrefi gofal.

Pan eglurwyd egwyddorion eiriolaeth i breswylwyr, fodd bynnag, roeddent yn credu bod y manteision yn glir.

**“Dw i'n meddwl y byddai [yn dda] oherwydd maen nhw y tu allan i'r cylch 'n'dydyn? Maen nhw'n berson allanol oherwydd mae'r hyn y maen nhw'n ei weld yn wahanol i'r hyn rydyn ni'n ei weld.”**

**(Resident)**

Nid oedd perthnasau'n deall llawer iawn am eiriolaeth. Dywedodd rhai nad oeddent erioed wedi clywed amdani o'r blaen ac roedd eraill yn meddwl mai jargon cyfreithiol ydoedd. Unwaith eto, er bod y term yn anghyfarwydd iddynt, mae'n ymddangos bod llawer o breswylwyr wedi deall egwyddorion eiriolaeth ac yn cydnabod pwysigrwydd cael rhywun i siarad ar ran preswylwyr. Yn gyffredinol, roedd perthnasau'n cysylltu'r angen am eiriolaeth â phreswylwyr a oedd naill ai heb deulu'n gefn iddynt neu a oedd yn 'methu sefyll drostynt eu hunain.'

**“Pan nad oes gennych chi neb i'ch helpu, mae'n rhywun i'ch helpu i drafod eich busnes ac ati.”**

**(Relative)**

Roedd rheolwyr cartrefi gofal a staff cartrefi gofal yn deall egwyddorion eiriolaeth i ryw raddau. Er hyn, roeddent yn tueddu i roi gormod o bwyslais ar eiriolaeth fel dull o ddiogelu ac amddiffyn, ymdrin â chwynion a datrys anghydfod. Roedd cred gyffredinol hefyd bod eiriolaeth yn bennaf ar gyfer pobl â dementia nad oeddent yn gallu mynegi eu barn a'u dymuniadau eu hunain neu ar gyfer y rhai hynny nad oeddent yn ymwneud llawer, os o gwbl, â'u teulu

**“Eiriolaeth - rhywun yn gweithredu ar ran unigolyn sydd heb alluedd.”  
(Rheolwr Cartref Gofal)**

**“Rwy'n credu efallai os oes ganddyn nhw gyflyrau fel dementia neu os nad oes ganddyn nhw alluedd meddyliol penodol i wneud penderfyniadau drostynt, ar eu rhan”**

**(Staff cartref gofal)**

Gofynnwyd i breswylwyr at bwy y byddent yn mynd pe baent yn poeni am rywbeth neu pe baent am gwyno am rywbeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r preswylwyr y byddent yn cael gair â rheolwr y cartref gofal neu ag un o'r staff gofal.

**“[Enw’r staff gofal] yw fy ngweithiwr allweddol, ati hi, neu gallaf ddweud wrth [enw rheolwr y cartref gofal] hefyd, ond mae’n haws gen i gael gair â [enw’r staff gofal]. Fe wnaiff hi ddatrys y broblem”**  
**(Preswyllydd)**

Ar y llaw arall, roedd llawer o reolwyr cartrefi gofal yn awyddus i ddweud bod eiriolaeth ddigonol yn cael ei darparu, yn gyffredinol, drwy’r trefniadau presennol mewn cartrefi gofal a chan berthnasau, ac nad oedd angen gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

**“Bydd pob aelod o staff yma yn eiriol dros breswylwyr ac yn gwneud hynny bob dydd.”**

**(Rheolwr Cartref Gofal)**

Roedd staff gofal yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i eiriol dros breswylwyr ynglŷn â phenderfyniadau o ddydd i ddydd, gan ddweud eu bod ‘wedi arfer’ mwy â phersonoliaeth yr unigolyn hŷn, y pethau y mae’n eu hoffi a’r pethau nad yw’n eu hoffi.

**“At y staff gofal y dylen nhw fynd yn gyntaf, gan mai ni sydd mewn cysylltiad â’r unigolyn fwyaf...ymolchi, gwisgo, helpu i fwyta ac wedyn os ydych chi’n cyrraedd sefyllfa, lle byddai angen iddyn nhw gael mwy o fewnbwn a mwy o gymorth, yna, byddai’n mynd drwy’r hierarchaeth.”**

**(Staff Gofal)**

O dan lawer o amgylchiadau, mae’n wir bod rôl staff gofal yn eiriol ar ran preswylwyr yn rôl bwysig a dilys ac efallai’n wir mai dyma’r cymorth mwyaf priodol sydd ei angen. Mae gan staff gofal rôl bwysig hefyd yn annog a chefnogi pobl i eiriol drostynt eu hunain. Serch hynny, mae hyn yn wahanol i eiriolaeth annibynnol a’r camddealltwriaeth hwn sydd wrth wraidd rhai o’r problemau a welwyd.

Dyweddodd preswylwyr eraill mai dim ond at berthnasau y byddent yn mynd er mwyn cael rhywun i siarad ar eu rhan.

**“Na, wel pe bai rhywbeth yn fy mhoeni, fel arian neu waeledd, byddwn yn gofyn iddynt gysylltu â'm merch ...fe wnaiff hi ofalu am y mater, mae hi'n ferch dda...”**

**(Preswilydd)**

**“Na, nid yma, na dim ond ar fy nheulu y byddaf i'n dibynnu.”**

**(Preswilydd)**

Fodd bynnag, mae'n bosib nad yw perthnasau bob tro yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ar ran unigolyn hŷn.

**“Wel, mae gan lawer o'n rhai ni deulu ond wedi dweud hynny, wrth gwrs, dydy teulu ddim bob amser yn mynegi dymuniadau pobl, nac ydyn?”**

**(Rheolwr Cartref Gofal)**

Roedd perthnasau'n aml yn teimlo nad oeddent yn gwybod yn iawn sut i siarad ar ran unigolyn hŷn, yn enwedig wrth ymdrin â materion pwysig ac mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Roedd rhai'n teimlo y byddai eiriolydd annibynnol yn fwy priodol, er mwyn edrych ar bethau'n 'annibynnol' a chael mwy o ddylanwad.

**“Yn bersonol, rwy'n meddwl mai rhywun sy'n helpu ac yn sefyll dros bobl yw e, yn enwedig gyda biwrocratiaeth a chynghorau neu wasanaethau...”**

**(Relative)**

Mae'r dyfyniad uchod yn atgyfnerthu rôl bwysig eiriolwyr annibynnol o ran helpu pobl hŷn i lywio drwy systemau cymhleth neu broffesiynol a sicrhau bod rhywun yn gwrando ar eu barn yn y cyd-destun hwn.

Roedd staff gofal yn cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth annibynnol fel 'cynllun B' ar gyfer sefyllfaoedd a oedd yn rhy fawr i ymdrin â hwy y tu mewn i'r cartref neu mewn sefyllfaoedd lle roedd perthnasau'r preswlydd yn byw ymhelli i ffwrdd. Codwyd pwynt pwysig gan un aelod o staff cartref gofal, sef bod perthnasau agosaf preswlydd, yn aml iawn, tua'r un oed a heb fod yn dda iawn eu hiechyd eu hunain ychwaith, sy'n golygu mai dim ond hyn a hyn o gefnogaeth y gallant ei chynnig.

Dyweddod un aelod o staff cartref gofal hefyd ei fod yn credu bod ar bawb sy'n byw mewn cartref gofal angen eiriolaeth os byddant yn dymuno herio strwythur a threfniadau rheolaidd y cartref gofal.

**“Achos dw i'n meddwl bod strwythur mewn cartref, mae angen rhyw fath o strwythur arnon ni i gyd ond wrth gwrs mae angen ichi helpu'r unigolyn hwnnw os bydd am gamu allan o'r bocs a gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol, ei helpu i wireddu'r dymuniad hwnnw. Ond gall teuluoedd hefyd geisio cymryd drosodd a rhaid inni wneud yn siŵr mai dyna beth yw dymuniad yr unigolyn hŷn, bod hynny er ei bennaf les ac mai dyna beth mae arno ei angen...”**

**(Staff Gofal)**

Roedd pob un o'r staff gofal a gyfwelwyd yn teimlo bod barn, safbwynt a dymuniadau preswylwyr yn cael eu cynrychioli'n dda iawn yn eu cartrefi gofal. Cyfeiriodd llawer o staff gofal at enghreifftiau a oedd yn dangos sut roedd pethau'n cael eu newid er mwyn ystyried dymuniadau'r preswylwyr. Roedd nifer o'r enghreifftiau hyn, fodd bynnag, wedi eu cyfyngu i gyfforddusrwydd a gofal sylfaenol preswylwyr ac roeddent yn cynnwys pethau fel newid y dewisiadau ar y fwydlen, y gweithgareddau a'r trefniadau eistedd yn hytrach na dewis a rheolaeth ehangach.

Ychydig o'r rheolwyr cartrefi gofal a ddywedodd eu bod yn defnyddio neu eu bod wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth annibynnol a hynny'n tueddu i gael ei briodoli i ddiffyg darparwyr eiriolaeth annibynnol lleol.

Roedd llawer o reolwyr y cartrefi gofal hefyd yn methu rhoi gwybodaeth am y nifer a oedd yn manteisio ar wasanaethau eiriolaeth yn eu cartrefi gofal. Golygai hyn nad oedd yn glir faint o'r preswylwyr oedd wedi defnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol mewn gwirionedd, sut yr oeddent yn cael gafael ar y gwasanaethau hyn a beth oedd y canlyniadau.

I bob golwg roedd rhai rheolwyr cartrefi gofal yn cytuno bod presenoldeb eiriolydd annibynnol yn y cartref gofal o bosibl yn adlewyrchu gofal gwael. Roedd hyn yn awgrymu bod rhai'n poeni y gallai presenoldeb gwasanaethau eiriolaeth annibynnol fod yn arwydd o ddiffygion o ran safon ac ansawdd gofal yn y cartref.

**“Dw i'n gwybod eu bod nhw wedi defnyddio eiriolaeth o'r blaen ychydig flynyddoedd yn ôl...ond ers i mi fod yma dydyn ni ddim wedi cael dim rheswm i wneud.”**

**(Rheolwr Cartref Gofal)**

## **Arfer da**

Roedd yn beth braf gweld bod y cartrefi gofal y buom yn siarad â hwy'n cyfeirio'n aml at bolisiâu 'drws agored' lle y gallai preswylwyr gysylltu â staff gofal neu reolwr y cartref gofal ag awgrymiadau neu gwynion ar unrhyw adeg. Roedd cartrefi gofal eraill yn cyfeirio at gyfarfodydd preswylwyr, cynllunio gofal ac adborth ac arolygon barn ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Cyfeiriodd rhai cartrefi gofal at y ddarpariaeth eiriolaeth bresennol lle y cynhelid cyfarfodydd misol rhwng yr eiriolydd a'r preswylwyr. Byddai'r eiriolydd wedyn yn mynd â'r wybodaeth berthnasol at reolwr y cartref gofal.

Fel y nodwyd yn gynharach, er bod llawer o reolwyr cartrefi gofal yn cynorthwyo preswylwyr i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol, clywsom y farn hefyd mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a oes ar breswylwyr angen y gwasanaethau hyn ai peidio. Dywedodd rhai rheolwyr cartrefi fyddai'r sefyllfa'n ymwneud â chwyn neu anghydfod.

Mae perygl y gallai'r arfer hwn gau'r drws ar eiriolaeth ac mae'n bwysig bod penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn dryloyw ac yn atebol.

Mae'r agwedd gul hon at eiriolaeth yn awgrymu hefyd bod eiriolaeth mewn rhai lleoliadau wedi dechrau cael ei chysylltu â phroblem a'i chysylltu'n negyddol â diogelu, cwynion ac anghydfod yn hytrach na'i gweld yn ffordd o roi cymorth i breswylwyr er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau ystyrlon a chael rheolaeth dros eu bywydau. Mae hyn yn debygol o arwain at ddiffyg cymorth i breswylwyr gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth mewn sefyllfaoedd eraill.

Ni ellir anwybyddu arferion porthgadw o'r fath. Gallant danseilio ymdeimlad pobl hŷn eu bod yn unigolion a bod ganddynt hawl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gan weithredu'n groes i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, yn fwyaf penodol eu hawl i gael gafael ar wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol er mwyn cryfhau eu hannibyniaeth, eu diogelwch a'u gofal (Egwyddor 12; Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn) a'r hawl i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal ac ansawdd eu bywydau (Egwyddor 14; Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn).

Mae staff y rheng flaen yn hollbwysig o ran hyrwyddo a helpu preswylwyr i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth annibynnol Mae'n hollbwysig eu bod yn deall ei rôl a'i phwrpas yn iawn yn ogystal â faint o ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol a sut mae cael gafael arni.

Dywedodd rheolwyr cartrefi gofal nad oedd hyfforddiant ffurfiol ar eiriolaeth ar gael i staff gofal mewn cartrefi gofal. Dywedodd staff gofal hefyd nad oeddent wedi cael hyfforddiant yn ymwneud ag eiriolaeth ar gyfer preswylwyr, ac nad oeddent yn gwybod am hyfforddiant o'r fath, er bod llawer wedi dweud iddynt gael hyfforddiant codi ymwybyddiaeth megis Diogelu Oedolion Agored i Niwed (POVA), Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) ac Eiriolaeth Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA).

## **Rôl staff mewn eiriolaeth annibynnol**

Rhaid i Eiriolydd Annibynnol fod yn gwbl annibynnol er mwyn i eiriolaeth fod mor effeithiol ag y gall fod i bobl hŷn. Mae rhai gweithwyr proffesiynol, megis gweithiwr cymdeithasol neu nyrs, yn gallu chwarae rôl debyg i rôl eiriolydd fel rhan o'u swydd gyffredinol. Ond, os yw eich 'problem' yn gysylltiedig â pholisïau, canllawiau neu arferion adran gwasanaethau cymdeithasol y cyngor lleol neu ysbyty'r GIG, yna, weithiau, fe all fod yn amhriodol i'r gweithiwr cymdeithasol neu'r nyrs 'eiriol' ar eich rhan. Y rheswm dros hyn yw y byddai'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol neu'r nyrs 'fentro' herio eu rheolwr hwy eu hunain neu arferion a pholisïau eu hasiantaeth er mwyn sicrhau'r canlyniad yr ydych chi'n dymuno'i gael. Er bod rhai gweithwyr proffesiynol wedi ceisio gwneud hyn, mae'n anodd, oherwydd, yn y pen draw, y sefydliad hwnnw sy'n eu cyflogi. Efallai na chaiff eich llais byth ei glywed yn iawn, neu efallai y caiff ei sgubo o'r neilltu oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau.

Dyfyniad o 'Counsel and Care Guide 25: Independent Advocacy'



Teimlai llawer o staff gofal fod ganddynt eisoes yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ynglŷn ag eiriolaeth yn sgil y mathau eraill o hyfforddiant yr oeddent wedi ei gael ynglŷn â Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed a Diogelu rhag Colli Rhyddid a bod eiriolaeth mewn cartrefi gofal yn cael ei monitro a'i hyrwyddo'n ddigonol o dan y trefniadau presennol. Mae hyn ynddo'i hun yn atgyfnerthu'r camddealltwriaeth ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng eiriolaeth annibynnol a'r eiriolaeth sy'n gysylltiedig â Diogelu Oedolion.

**“Rwy'n meddwl bod y staff wedi cael cynnig cael rhywun i ddod i mewn i siarad gyda ni...ond rwy'n meddwl bod pob un ohonon ni'n teimlo...nad oedd arnon ni angen neb.”**

**(Staff Gofal)**

Dyweddodd rhai rheolwyr cartrefi gofal y byddai cost darparu hyfforddiant ychwanegol ar eiriolaeth yn faich sylweddol ar hyfywedd busnes y cartref. Teimlai eraill fod eiriolaeth yn rhan gynhenid o ddiwylliant y cartref gofal a'i bod yn cael ei throsglwyddo o ofalwyr profiadol i ofalwyr newydd drwy'r amser.

Er inni glywed y farn fod rheolwyr cartrefi gofal mewn lle da i eiriol, ac nad oes angen rhagor o hyfforddiant arnynt, mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun canfyddiadau mewn mannau eraill yn yr Adolygiad bod pobl yn camdeall beth yw eiriolaeth a bod angen rhoi sylw i hyn.

## **Adran 2 Argymhellion**

- a.** Dylai'r achos busnes a gynllunnir gan Lywodraeth Cymru dynnu sylw at bwysigrwydd eiriolaeth, ac eiriolaeth annibynnol yn benodol, o ran rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl
- b.** Dylid sicrhau bod rôl a dylanwad gwasanaethau eiriolaeth, a rôl benodol eiriolaeth annibynnol o fewn hynny, yn bwrw gwreiddiau mewn hyfforddiant i reolwyr a staff cartrefi gofal
- c.** Dylid sicrhau bod rôl a dylanwad gwasanaethau eiriolaeth, a rôl benodol eiriolaeth annibynnol o fewn hynny, yn bwrw gwreiddiau mewn hyfforddiant i reolwyr a staff cartrefi gofal
- d.** Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr cartrefi gofal gynnal archwiliadau i weld sut mae eiriolaeth annibynnol yn cael ei defnyddio, gan gyfeirio'n benodol at yr amgylchiadau lle y'i defnyddiwyd.

## **Canlyniad cyffredinol:**

**Bod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth, gan gynnwys o rôl a dylanwad eiriolaeth annibynnol, ledled Cymru**

## 3

## Y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol sydd ar gael mewn lleoliadau penodol a gallu pobl i gael gafael arnynt

Mae gan eiriolaeth annibynnol rôl hollbwysig i'w chwarae i bobl hŷn o dan amgylchiadau penodol. Gall sicrhau bod pobl hŷn yn cael gafael ar y gwasanaethau y mae ganddynt yr hawl i'w cael, a bod y gwasanaethau hynny'n diwallu eu hanghenion ac yn diogelu eu buddiannau. Mae'n rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl o ran yr hyn sydd orau ganddynt o ddydd i ddydd neu adeg cyfnodau pontio allweddol er enghraifft pan fydd rhywun yn ystyried mynd i ofal sefydliadol.

### Y Prif Bwyntiau

- Ni fydd pobl hŷn bob tro'n cael cymorth pan fydd gofyn iddynt wneud penderfyniadau pwysig ac adeg cyfnodau pontio, ac fe all hyn amharu'n sylweddol ar eu lles.
- Mae eiriolaeth annibynnol yn arbennig o bwysig o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys pan fydd pobl hŷn yn mynd i gartref gofal (ac mae hynny'n aml yn digwydd yn sgil argyfwng megis profedigaeth neu gyfnod o afiechyd) neu wrth wynebu penderfyniadau pwysig a newidiadau yn eu bywyd megis pan fydd cartref gofal o dan fygythiad neu ei fod ar fin cau.
- Mae'n hanfodol eu bod yn cael digon o amser i bwysio a mesur y sefyllfa cyn gwneud penderfyniad.

### 3.1 Mynd i ofal preswyl

Ychydig o benderfyniadau sy'n fwy pwysig, yn fwy anodd neu'n peri mwy o straen na'r penderfyniad i adael eich cartref er mwyn byw mewn cartref gofal. Mae'n rhy hawdd o lawer i berthnasau neu weithwyr proffesiynol wneud penderfyniadau ynglŷn â phobl hŷn yn mynd i gartref gofal ac efallai na fydd eu buddiannau a'u barn hwy'n cyd-fynd â rhai'r oedolyn hŷn. Mae'n bosibl hefyd y gwneir penderfyniadau o'r fath pan fydd yr oedolyn hŷn mewn sefyllfa arbennig o agored i niwed, megis pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Hyd yn oed pan fydd pobl yn teimlo bod ganddynt lais a rheolaeth, bydd eu dewisiadau'n aml yn cael eu tanseilio'n sylweddol oherwydd diffyg gwybodaeth sylfaenol am y dewisiadau sydd ar gael iddynt.

I rai preswylwyr y buom yn siarad â hwy yn ystod ein gwaith ymchwil, roedd y penderfyniad i fynd i gartref gofal yn un syml. Dywedodd un preswilydd ei bod wedi cael cynnig byw gydag un o'i phlant, ond ei bod wedi dewis symud i gartref gofal yn lle hynny, ac i bob golwg, roedd yn teimlo bod gwneud y penderfyniad hwnnw wedi'i grymuso.

**“[Rydw i] wedi gwrthod mynd at fy mhlant i fyw oherwydd mae byw yma'n brafiach i mi”**

**(Preswilydd)**

Fodd bynnag, roedd pethau'n wahanol i lawer o'r rhai y buom yn siarad â hwy.

**“Na, wnaethon nhw fy anfon i yma [y cartref gofal]...a doeddwn i ddim eisiau dod ...Ddylwn i ddim bod wedi dod ...roedd yn rhaid imi ddod.”**

**(Preswilydd)**

Soniodd rhai preswylwyr am bobl 'eraill' yn dylanwadu arnynt ac yn eu cymell i dderbyn mai gofal hirdymor oedd y dewis gorau iddynt. Er bod rhai yn meddwl, ac edrych yn ôl, mai mynd i'r cartref gofal oedd y peth gorau a'r peth mwyaf diogel iddynt yn y pen draw, yn aml iawn, nid oeddent yn gallu egluro wrthym i ba raddau yr oeddent yn teimlo eu bod wedi cael llais yn y penderfyniad hwn ac a oeddent yn poeni am oblygiadau mynd yn groes i argymhellion perthynas neu weithiwr iechyd/meddygol proffesiynol.

**“...gan fy mod i'n syrthio cymaint, roedd fy merch i'n poeni'n ofnadwy, felly dyma hi'n dweud; “Mam, mae'n rhaid ichi fynd i gartref, mae'n rhaid ichi ...” Fel arall, ro'n i ar fynd drwy'r adeg, ro'n i'n hoffi fy lle, yn ei hoffi'n fawr iawn”**

**(Preswilydd)**

Dyweddodd preswylwyr eraill hefyd nad oeddent wedi cael llawer o lais, os o gwbl, yn y penderfyniad ynglŷn â mynd i'r cartref gofal a'i fod yn dipyn o sioc iddynt.

“Wel fe gefais i dipyn o sioc pan ddes i yma. Ro’n i eisiau gwybod pwy ar wyneb y ddaear oedd wedi rhoi fy enw i ddod yma ond mae’n siŵr mai’r ysbyty wnaeth. Doedd neb o’m teulu i’n fodlon cyfaddef ond mae’n siŵr mai’r ysbyty wnaeth.”

(Preswlydd)

“Wel mi ges i sioc pan ddois i yma, doeddwn i ddim yn gwybod dim byd am y peth achos doeddwn i ddim yn gallu, wel dydw i ddim yn cerdded yn iawn rŵan ond pan dorrais i fy nghoes mi o’n i, mi wnaethon nhw roi llyfr am gartrefi i’m mab ... Na, roedd y peth yn gwbl annisgwyl, ac ro’n i’n poeni’n ofnadwy dach chi’n gwybod ynglŷn â sut y dois i i fod yma a dw i’n meddwl falle mai’r ysbyty oedd yn gyfrifol.”

(Preswlydd)

Dywedodd llawer o’r unigolion y siaradwyd â hwy nad oeddent yn ymwybodol o’r gwahanol ddewisiadau a oedd ar gael iddynt ac i rai, roedd ymdeimlad cryf o fod yn ddiymadferth o ran penderfynu ynghylch eu dyfodol.

Yn aml iawn, bydd unigolion yn cael eu derbyn i ofal yn dilyn argyfwng neu gyfnod o waeledd. Gall rhywun hŷn fod yn agored iawn i niwed ar adeg o’r fath, ac mae’r ymdrech corfforol ac emosiynol sydd ei hangen i wneud penderfyniadau pwysig yn gallu bod yn fawr iawn. Yn yr un modd, gall pwysau gan berthnasau, neu’r angen am ryddhau gwelyau yn yr ysbyty gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael gan olygu na fydd pobl hŷn yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau sy’n iawn iddynt hwy neu’n unol â’r hyn a fyddai’n well ganddynt fel unigolion.

Roedd yn amlwg, wrth inni sgwrsio â phobl hŷn, bod symud i gartref gofal yn aml achosi problemau a’i fod yn ffactor arwyddocaol yn y ffordd y mae pobl hŷn yn eu gweld eu hunain. Cefnogir hyn gan ymchwil arall sy’n dangos sut y mae pobl hŷn yn dod i’w gweld eu hunain yn ‘wrthrychau i’w lleoli’ ac yn un o nwyddau’r system cartrefi gofal ar ôl iddynt symud i gartref gofal<sup>vi</sup>.

Gall eiriolaeth sy’n gysylltiedig â rhyddhau o’r ysbyty ddylanwadu’n sylweddol ac yn gadarnhaol ar y canlynol:

- gorfod aros yn hwy yn yr ysbyty a hynny’n effeithio ar symudedd ac annibyniaeth

- gorfod aros yn hwy yn yr ysbyty a hynny'n effeithio ar symudedd ac annibyniaeth
- arafwch wrth sefydlu pecynnau gofal a hynny'n golygu oedi wrth ryddhau
- diffyg cysylltiad rhwng cleifion, teuluoedd a gofalwyr a'r broses ryddhau
- penderfyniadau pwysig ynglŷn â'r rhyddhau i ofal preswyl yn cael eu gwneud ar adeg pan fydd yr oedolyn hŷn dan sylw'n rhy sâl, yn rhy agored i niwed, neu'n rhy flinedig i wneud yr ymdrech corfforol ac emosiynol i benderfynu ar sail gwybodaeth.

Mae dadl gref o blaid proses eiriolaeth annibynnol, lle byddai eiriolwyr sy'n gweithredu ar ran cleifion, teuluoedd a gofalwyr yn herio'r hyn sy'n rhy aml yn cael ei weld yn llwybr awtomatig i ofal preswyl, a hynny ar adeg pan fydd unigolyn hŷn yn wynebu dirywiad dros dro sylweddol yn eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Gallai eiriolydd annibynnol, o dan yr amgylchiadau hyn, helpu i sicrhau bod holl ystod gwasanaethau yn y gymuned neu becynnau gwasanaethau cymunedol amgen yn cael eu hystyried yn llawn gan staff meddygol, nyrsio a staff clinigol eraill y GIG, gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â chan gleifion, aelodau'r teulu a gofalwyr. Gallai'r rhain gynnwys:

- gwelyau ailsefydlu/ymadfer mewn ysbytai eraill
- contractio bloc o welyau cam-i-lawr mewn cartref nyrsio neu gartref preswyl sy'n cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth iechyd/gofal cymdeithasol i baratoi defnyddwyr gwasanaethau 'is-aciwt' i ddychwelyd adref
- timau gofal canolraddol
- timau ail-alluogi
- timau rhyddhau gofal cymdeithasol (gofal dwys/yn tapro am hyd at 6 wythnos)
- gwasanaethau noswyl/codi
- nyrsio cymunedol
- timau cyflyrau cronig (gofal iechyd a chymdeithasol)
- ffisiotherapi cymunedol, therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith

- Timau Iechyd Meddwl cymunedol (pobl hŷn â dementia, clefyd Alzheimer)
- gwasanaethau addasu ac offer (gan gynnwys siopau offer ar y cyd)
- unedau ailsefydlu dydd ar y cyd
- ysbytai dydd
- tai lloches â gofal ychwanegol
- darpariaeth sefydlog neu symudol yn y nos
- gwasanaethau cymorth gan y trydydd sector gan gynnwys; mân waith atgyweirio, garddio, siopa, cymorth cartref.
- gofal Crossroads (cymorth i ofalwyr) ac asiantaethau eraill sy'n cynnig cymorth i ofalwyr
- asiantaethau gwirfoddol yn cynnig amrywiaeth o fathau o gymorth yn y brif ffrwd i bobl hŷn sydd ag ystod eang o anabledau corfforol, cyflyrau cronig, anawsterau synhwyrdd, gwasanaethau iechyd meddwl ac ati.

Mae'n amlwg y gall eiriolwyr annibynnol chwarae rhan bwysig yn archwilio gyda defnyddwyr gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr, yr ystod o ddarpariaeth a phecynnau gofal sydd ar gael fel ffordd o osgoi derbyn pobl i'r ysbyty neu i leoliadau eraill heb fod angen. Felly, mae dadl gref sy'n argyhoeddi o blaid darparu system eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn ledled Cymru wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

### **3.2 Cartrefi Gofal sydd o dan fygythiad neu wrthi'n cael eu cau**

Mae manteision sylweddol ynghlwm wrth gael eiriolydd annibynnol i gefnogi unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal sy'n cau neu sydd o dan fygythiad. Nid dim ond y preswylwyr a gaiff fudd o hyn, ond perthnasau, staff a pherchnogion y cartref hefyd. Gallai eiriolydd annibynnol gwybodys a chydwybodol sicrhau bod llais preswylwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael eu clywed o ran:

- rhoi iechyd a lles preswylwyr ar frig yr agenda cau a sicrhau eu bod yn aros yno
- sicrhau parhad yn y gofal wrth i'r preswyllydd drosglwyddo i gartref gwahanol
- sicrhau bod y broses asesu ar gyfer cau'n ystyried anghenion, dewisiadau a'r hyn sydd orau gan bobl

- sicrhau bod cyfathrebu amserol sydd wedi'i gynllunio'n dda yn helpu i leihau trallod, sïon a chamwybodaeth gan fynnu bod strategaeth glir ar gyfer y cau (os nad oes dewis arall) yn cael ei chyfleu i bob rhanddeiliad
- sicrhau bod trefniadau gofal yn diwallu gofynion emosiynol a chymdeithasol yn ogystal â'r trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'u dyfodol

O'r un ar bymtheg o gartrefi gofal yr ymwelsom â hwy, roedd 3 o dan fygythiad neu wrthi'n cael eu cau a rhoddwyd llawer iawn o sylw i hyn ym mhob un o'r trafodaethau a gawsom gyda'r sawl yr oedd hyn yn effeithio arnynt.

Roedd ansicrwydd y sefyllfa'n peri llawer iawn o ofid i'r preswylwyr ac yn tueddu i daflu cysgod dros unrhyw brofiadau cadarnhaol o fyw yn y cartref gofal.

Dyweddodd y preswylwyr eu bod yn teimlo nad oedd dim y gallent ei wneud gan nad oeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd ynglŷn â'r penderfyniad i gau'r cartref gofal a'u symud. Roedd hyn hefyd yn gwneud iddynt amau eu gwerth a'u pwysigrwydd personol hwy eu hunain ac yn peri iddynt eu gweld eu hunain fel petaent yn nwyddau yn y system cartrefi gofal, i'w symud a'u lleoli ym mha le bynnag yr oedd rhywun arall yn penderfynu.

**“Meddwl am beth sy'n mynd i ddigwydd i mi oherwydd rydyn ni yn y niwl. Pe bae gennym ni fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd, wrth i mi fynd yn hŷn, a meddwl a siarad gyda fi fy hun, ein bod ni yma a'u bod nhw'n disgwyl inni farw bob yn un cyn y gallan nhw wneud rhywbeth ac mae hynny'n poeni rhywun.”**

**(Preswlydd)**

**“Does neb yn dweud wrthyn ni beth sy'n digwydd ...allwn ni ddim deall beth sy'n digwydd. Ond rwy'n credu y dylen ni gael gwybod hynny oherwydd mae rhai'n poeni'n ofnadwy. Rydw i'n poeni oherwydd does gen i nunlle i fynd.”**

**(Preswlydd)**

Gwelsom fod diffyg ymgysylltu ystyrllon yn aml â phreswylwyr, fod yr eiriolaeth annibynnol yn aml yn cael ei darparu'n rhy hwyr, os darperir hi o gwbl.

Gwelsom hefyd na fydd perthnasau weithiau'n teimlo eu bod yn gallu eiriol dros breswylwyr lle mae'r cartref gofal wrthi'n cael ei gau neu o dan fygythiad. Dywedodd perthnasau eu bod hwy eu hunain yn anghyfarwydd â'r prosesau ffurfiol o dan sylw, a'r rheini'n aml yn gymhleth, megis sut mae cael gafael

ar wybodaeth berthnasol a chyflawn mewn pryd. Teimlent hefyd fod rhywun yn gofyn am eu barn a'u safbwyntiau ond mai'n anaml y câi hynny unrhyw ddylanwad.

O ran cau cartrefi gofal, yn ein hymchwil, gwelsom fod pobl yn teimlo'n ddiymadferth oherwydd nad oeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd a bod preswylwyr, yn sgil hynny, yn aml yn teimlo nad oes gwerth iddynt o gwbl. Mae perygl i breswylwyr eu gweld eu hunain yn nwyddau, a'u bod yn y tywyllwch yn pendroni beth fydd yn digwydd nesaf. Yn aml iawn, bydd diffyg ymgysylltu gan reolwyr yn cael ei weld yn un o nodweddion cau neu fygwth cau llawer o gartrefi, gan adael perthnasau heb na'r wybodaeth, na'r ffeithiau na'r sgiliau i eiriol ar ran eu hanwyliaid.

Drwy ddod â phrofiadau pobl hŷn a thystiolaeth yr holl waith ymchwil arall rydym wedi'i wneud at ei gilydd, gwelir bod pobl yn aml yn gofyn am farn preswylwyr a pherthnasau ond mai anaml y byddant yn gweithredu ar sail y sylwadau hynny, ar ôl iddynt ystyried y rhesymau ariannol a'r rhesymau eraill dros gau.

### Adran 3 Argymhellion

- a. Dylai'r achos busnes a gynllunnir gan Lywodraeth Cymru gyfeirio'n benodol at rôl eiriolaeth i bobl sy'n mynd i leoliad gofal o'r ysbyty, pobl sy'n byw mewn lleoliad gofal, neu bobl sy'n wynebu cau cartref gofal.
- b. Dylai Comisiynwyr Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol, a chartrefi gofal:
  - Restru'r prif adegau pan roddir gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn a phan gynigir cyfle iddynt fanteisio ar eiriolaeth annibynnol.
  - Bod yn glir ynglŷn â sut y byddant yn ymdrin â'r sefyllfa lle na fydd gan rywun hŷn alluedd neu lle bydd ei alluedd yn mynd a dod, neu lle na fydd ganddo berthnasau'n gefn iddo.
  - Cynyddu'r ddarpariaeth a hwyluso'r llwybr at wasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru, gan sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu dal yn atebol am alluogi pobl hŷn i gael gafael ar eiriolaeth annibynnol.
- c. Bod yr holl staff sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n mynd i leoliad gofal o'r ysbyty, sy'n byw mewn lleoliad gofal, neu sy'n wynebu cau cartref gofal, yn cael eu hyfforddi ynglŷn â rôl a manteision eiriolaeth o dan yr amgylchiadau penodol hyn



## Canlyniad cyffredinol:

Bod pobl hŷn mewn sefyllfaoedd allweddol lle maent yn agored i niwed ac yn gwneud penderfyniadau hollbwysig ynglŷn â symud i leoliad gofal cymdeithasol neu ynglŷn â newid lleoliad, yn gwybod am yr wybodaeth, y cyngor a'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael a'u bod yn gallu cael gafael arnynt.

## 4 Arolygu, Monitro a Darparu

Mae angen i wasanaethau eiriolaeth annibynnol fod o safon dderbyniol, gyson a chydabyddedig. Er bod y Llywodraeth wedi pennu safonau ar gyfer darparwyr eiriolaeth statudol, nid oes gan gynlluniau eiriolaeth annibynnol fframwaith safonau ffurfiol yn sail i'w darpariaeth, ac fe gaiff y rhain eu monitro a'u hadolygu gan amrywiaeth o sefydliadau<sup>vii</sup>.

### Y Prif Bwyntiau

- Nid oes trefniadau cyson a chynhwysfawr ar gyfer arolygu a monitro'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol.
- Mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o eiriolaeth.
- Mae rôl yr Arolygiaeth yn hollbwysig o ran ategu proffil a phwysigrwydd eiriolaeth mewn cartrefi gofal ac mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o eiriolaeth a darparu hyfforddiant yn ei chylch i staff yr Arolygiaeth.
- Gallai agwedd fwy cyson at y broses arolygu gryfhau'r ffocws ar ganlyniadau i bobl hŷn a gallai fod o gymorth i hwyluso dewis a rheolaeth.

Dangosodd ein Hadolygiad anghysonderau o ran arolygiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Roedd rhai rheolwyr cartrefi gofal yn dweud bod arolygwyr yr Arolygiaeth yn gofyn a oedd y preswylwyr yn gallu manteisio ar wasanaethau eiriolaeth, ac roedd rhai'n dweud nad oedd yr arolygwyr yn gofyn dim am y ddarpariaeth honno. Roedd cwestiynau'r arolygydd yn tueddu i ymwneud â threfniadau

Diogelu rhag Colli Rhyddid ac a oedd trefniadau o'r fath yn berthnasol i unrhyw un a oedd yn byw yn y cartref. Nid yw AGGCC yn gofyn cwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth eiriolaeth mewn cartrefi gofal fel mater o drefn. Nid yw trefniadau eiriolaeth nad ydynt yn cael eu darparu gan Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol yn cael eu hystyried a'u monitro fel mater o drefn yn ystod arolygiadau.

Nid yw Safonau 8 ac 11 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yng Nghymru'n nodi'n glir beth a ddisgwylir o ran darparu eiriolaeth mewn sefydliad sy'n cael ei reoleiddio.

Nid yw'r Safonau ychwaith yn cynnwys canllawiau clir na digon o fanylion ynglŷn â gofynion eiriolaeth ac nid ydynt yn diffinio rôl rheolwr y cartref gofal o ran helpu pobl i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth.

## 4.1 Barn eiriolwyr annibynnol

Dyweddodd darparwyr eiriolaeth annibynnol fod ofn a chamganfyddiad o eiriolaeth annibynnol ymhlith rheolwyr a staff cartrefi gofal. Dywedodd yr eiriolwyr fod canlyniadau monitro'u darpariaeth yn dangos bod cyfran uchel o'r atgyfeiriadau'n ymwneud â threfniadau rhyddhau o ysbyty. Mae hyn yn awgrymu, o blith yr atgyfeiriadau hynny a gafwyd, bod eiriolaeth annibynnol yn chwarae rôl yn ystod y camau rhyddhau o'r ysbyty a chynllunio gofal i bobl hŷn, yn enwedig wrth drosglwyddo i amgylchedd gofal hirdymor.

Mae eiriolwyr hefyd yn gweld eu rôl yn rôl sy'n diogelu ac yn amddiffyn. Bydd darparwyr eiriolaeth annibynnol yn aml yn gwisgo sawl 'het' (e.e. IMCA, IMHA) yn ogystal â darparu eiriolaeth generig. Fe all hyn arwain at bylu rolau a chyfrifoldebau. Mae'r eiriolwyr yn cyfeirio at anawsterau wrth weithredu'r un model darparu ym mhob cartref gofal y byddant yn ymwneud ag ef oherwydd amrywiadau sylweddol o ran diwylliant, cyd-destun a safonau'r gofal.

Mae eiriolwyr yn cyfeirio at gynnydd mewn 'eiriolaeth argyfwng', yn enwedig pan fydd cartrefi gofal yn cael eu cau. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, maent yn credu nad yw'r rhain yn aml yn fawr fwy na 'sioe' gan fod yr asesiadau a'r penderfyniadau mawr wedi cael eu gwneud eisoes. Nid ydynt yn credu bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn timau rhyddhau o'r ysbyty a gwaith cymdeithasol yn deall eiriolaeth yn ddigon da nac ychwaith benderfyniadau sydd er lles pennaf yr unigolyn.

## Adran 4 Argymhellion

### Dylai AGGCC:

- a. Ffonitro ac arolygu'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael i breswylwyr cartrefi gofal ac i ba raddau y mae rheolwyr a gweithwyr eraill wedi cael eu hyfforddi i ddeall manteision a rôl eiriolaeth annibynnol.
- b. Sicrhau bod arolygiadau o gartrefi gofal yn cynnwys gwerthuso'r cofnod o anghenion pobl hŷn yng nghyswllt eiriolaeth ac unrhyw gamau a gymerwyd er mwyn diwallu'r anghenion hynny.
- c. Cryfhau'r ddarpariaeth o fewn safonau gofal ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth
- d. Cyhoeddi canllawiau i Gomisiynwyr, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal yng Nghymru yn dweud y dylid ymgorffori egwyddorion hawliau dynol ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn y broses gomisiynu a'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer pobl hŷn.

### Canlyniad cyffredinol:

**Bod ymwybyddiaeth o rôl eiriolaeth annibynnol, a thystiolaeth ei bod yn cael ei defnyddio, yn bwrw gwreiddiau yn y trefniadau rheoleiddio ac arolygu, ynghyd â thystiolaeth ei bod yn haws i bobl gael gafael ar y gwasanaeth a'u bod yn cael cymorth i wneud hynny.**

## 5

### Comisiynu a Chontractio

Gallai fframweithiau comisiynu a chontractio sbarduno gwelliannau sylweddol yng Nghymru o ran y ffordd y mae pobl yn deall eiriolaeth ac o ran y gwasanaeth sydd ar gael. Serch hynny, mae'r sylw a'r flaenoriaeth i ariannu a chomisiynu eiriolaeth i bobl hŷn gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd wedi amrywio. Y farn gyffredinol yw bod yr ariannu ar gyfer eiriolaeth anstatudol yn benodol yn annigonol.

## Y Prif Bwyntiau

- **Nid oes cysondeb na fframwaith clir i'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol bresennol.**
- **Nid oes dull cydlynol a chyson o asesu angen a chynllunio ar gyfer darparu ac ariannu eiriolaeth ar hyn o bryd.**
- **Nid yw contractau comisiynu gyda chartrefi gofal yn nodi'n benodol pa drefniadau a ddylai fod ar waith gan gartrefi gofal ar gyfer eiriolaeth annibynnol.**

## Awdurdodau Lleol

Wrth inni weithio ar eiriolaeth annibynnol, cysylltwyd â phob un o'r 22 awdurdod lleol i ofyn iddynt am y trefniadau eiriolaeth yn eu hardal. Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r Awdurdodau Lleol a holwyd strategaeth eiriolaeth benodol ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Roedd rhai Awdurdodau Lleol yn dibynnu ar wneud penderfyniadau fesul achos tra roedd gan eraill ddull mwy rhagweithiol a darpariaeth ehangach.

Dyweddod llawer o Awdurdodau Lleol fod eiriolaeth yn rhan o strategaethau ehangach eraill yn ymwneud â rheoli gofal a threfniadau comisiynu ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys iechyd meddwl ac anabledau corfforol.

Roedd darlun cymysg o'r ddarpariaeth eiriolaeth mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Roedd llawer yn dibynnu ar brynu yn ôl y galw neu gytundebau lefel gwasanaeth bychain a fyddai'n cael eu llunio fesul achos a'r rheini'n aml yn ymwneud â nifer o wahanol grwpiau defnyddwyr. Dywedodd nifer o Awdurdodau eu bod wedi comisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn benodol ar gyfer cartrefi gofal, fel eithriad, oherwydd rhaglen cau cartrefi gofal yn y sir; dywedodd ambell un fod ganddynt strategaethau comisiynu ar y cyd.

Dyweddod y rhan fwyaf o'r Awdurdodau Lleol y byddai eu gwasanaethau rheoli gofal a gwaith cymdeithasol ar gael ac yn fwyaf priodol ar gyfer pobl hŷn a allai fod yn ystyried symud i gartref gofal. Fe wnaeth rhai Awdurdodau gyfeirio at wasanaethau eiriolaeth a oedd yn cael eu comisiynu'n lleol a chynlluniau rhyddhau o ysbyty a oedd yn cael eu darparu gan sefydliadau'r trydydd sector, ond roedd gwaith cymdeithasol a rheoli gofal yn cael lle amlwg ym mhob achos bron.

Roedd y ddarpariaeth gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn yn dameidiog. Ychydig o'r gwasanaethau hyn a oedd yn benodol i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Lle roedd gwasanaethau'n cael eu comisiynu, roedd y monitro'n cael ei wneud fel rheol drwy gytundebau lefel gwasanaeth a gofynion hanfodol ar gyfer adrodd.

Roedd llawer o gyfeiriadau at wasanaethau'n gosod eu safonau eu hunain ac at 'hunan-fonitro' yn yr ymatebion a gawsom. Y broses a ddefnyddid gan un gwasanaeth o'r fath, er enghraifft, oedd gosod ei safonau ei hun a chynnal hunanasesiad ar sail y rhain. Roedd y broses hon wedyn yn cael ei hadolygu'n annibynnol a thystysgrif yn cael ei dyfarnu bob blwyddyn. At hyn, roedd yr Awdurdod Lleol, drwy'r broses gomisiynu a monitro, yn adolygu adroddiad blynyddol y sefydliad.

Nid oedd llawer o'r ymatebion a gafwyd gan Awdurdodau Lleol yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y byddent yn asesu'r angen am eiriolaeth yn eu hardal. Roedd rhai cyfeiriadau at ymarferion mapio blaenorol, ond nid oedd yn glir faint o flaenoriaeth a oedd yn cael ei rhoi i ddarparu eiriolaeth wrth eu cynllunio nac ychwaith yn eu canlyniadau. Cyfeiriodd rhai Awdurdodau hefyd at yr angen am ymchwiliad fel hyn er mwyn penderfynu ynglŷn â gwybodaeth o'r fath.

**“Mae eiriolaeth yn cael ei thrafod ond mae'n cael ei gweld yn faes nad oes neb yn sôn amdani nac yn gofyn amdani'n aml. Mae Gofal Cymunedol yn priodoli'r diffyg galw i'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan weithwyr cymdeithasol a sefydliadau cymorth eraill sy'n helpu'r unigolyn i gael llais i ddweud beth yw ei anghenion a pha gymorth sydd ei angen arno. Mae'r cyngor yn datblygu cymorth sy'n cael ei dywys gan ddinasyddion a gwasanaethau taliadau uniongyrchol gan fod pobl [enw'r ardal] yn cael eu cynorthwyo i reoli eu materion eu hunain, gan gynnwys pa gymorth sydd ei angen neu nad oes mo'i angen arnynt”**

(Awdurdod Lleol)

## Arfer Da

Soniodd Awdurdod Lleol am fodel newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Elfen bwysig ohono fydd strategaeth gyfathrebu. Fel rhan o waith ailfodelu gwasanaethau ehangach, bydd darparu eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a phobl agored i niwed sydd mewn gofal a sicrhau ei bod ar gael yn un o'r gofynion safonol ar gyfer pawb sy'n cael ei gomisiynu i ddarparu gofal preswyl neu ofal nyrzio.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ba wasanaethau eiriolaeth annibynnol a oedd ar gael yn yr ardal, roedd Awdurdodau Lleol yn aml yn dibynnu ar wybodaeth a oedd yn cael ei dosbarthu mewn pecynnau gwybodaeth, yn cael ei rhoi ar wefannau a'i chynnwys mewn cyfarwyddiaduron a thafleuni. Roedd llawer o

Awdurdodau Lleol hefyd yn dibynnu ar fod gan staff gwaith cymdeithasol a staff rheoli gofal ddigon o wybodaeth i gyfeirio pobl y gallai fod angen y gwasanaeth arnynt. At hyn, lle byddai gwasanaethau'n cael eu comisiynu gan Awdurdodau Lleol mewn llawer o feysydd, byddai'r cyfrifoldeb am hysbysebu a hyrwyddo'n rhan o'r cytundeb lefel gwasanaeth ac, o ganlyniad, yn gyfrifoldeb i'r darparwr.

## Byrddau Iechyd Lleol

Bydd llawer o'r Byrddau Iechyd Lleol yn gwasanaethu mwy nag un ardal Awdurdod Lleol (rhai hyd at 6). O ganlyniad, soniwyd am wahanol lefelau o ymwneud a rhyngweithio â gwahanol strategaethau, cytundebau lefel gwasanaeth a chynlluniau amrywiol sydd ar waith ar hyn o bryd neu sy'n cael eu datblygu yn eu hardaloedd hwy eu hunain.

Ychydig o'r Byrddau Iechyd Lleol a ddywedodd eu bod yn comisiynu darpariaeth eiriolaeth benodol ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Yn hytrach, dywedasant eu bod yn ymwneud â threfniadau comisiynu ar y cyd a bod ganddynt broses i gyfeirio unigolion i rywle arall. Er hyn, dywedodd llawer fod ganddynt nifer o gontractau a chytundebau lefel gwasanaeth gyda darparwyr eiriolaeth annibynnol. I bob golwg hefyd, anaml y defnyddid aseswyr nyrsio i helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth, ar sail y wybodaeth a gafwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol.

### Arfer Da

Mae rôl asesydd nyrsio sy'n adolygu cynlluniau gofal unigol a lleoliadau yn rheolaidd ac yn ystyried a yw anghenion gofal yn gysylltiedig ag iechyd ynteu â gofal cymdeithasol (sy'n penderfynu sut y caiff y gofal ei ariannu), yn awgrymu y gallent fod mewn sefyllfa dda i ddarparu cymorth o'r fath, fel sy'n digwydd yn yr un Bwrdd Iechyd Lleol sydd â strategaeth eiriolaeth. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae asesydd nyrsio yn cael ei ddyrannu i bob cartref nyrsio, er mwyn darparu cymorth a chynghor i bobl hŷn yn y cartref, yn ogystal ag er mwyn cyfeirio preswylwyr at wasanaethau eiriolaeth priodol.

Soniodd Byrddau Iechyd Lleol am y gwasanaethau amrywiol a oedd ar gael ac a oedd yn cael eu comisiynu gan asiantaethau eraill. Dywedasant eu bod yn defnyddio mwy ar y gwasanaethau hyn mewn sefyllfaoedd lle roedd amheuaeth ynglŷn â galluedd meddyliol neu lle'r oedd anghydfod ynglŷn ag asesiadau gofal cymdeithasol neu nyrsio.

## Arfer Da

Cyfeiriodd un Bwrdd Iechyd Lleol at gontract a oedd ar waith eisoes gyda darparwr eiriolaeth annibynnol lleol i gynorthwyo pobl hŷn sy'n gleifion mewnol i wneud penderfyniadau pwysig, ynglŷn â mynd i gartref gofal, er enghraifft. Mae'r gwasanaethau hyn fel rheol yn canolbwyntio ar roi cymorth i bobl hŷn yn yr ysbyty nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w cartrefi o bosibl ac sy'n cael eu hystyried yn wasanaethau hanfodol gan Arolygwyr a darparwyr eiriolaeth annibynnol.

Dywedodd rhai o'r Byrddau Iechyd Lleol eu bod yn defnyddio gwerthusiadau allanol gan brifysgolion lleol a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau ac yn cael eu mesur ar sail canlyniadau. Yr ymatebion arferol oedd adolygiadau blynyddol ac arfarnu cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau. Roedd un Bwrdd Iechyd Lleol yn defnyddio adroddiadau rheoli perfformiad a oedd yn gofyn i ddarparwyr fod wedi cyrraedd (neu fod yn gweithio tuag at) nod ansawdd Gweithredu dros Eiriolaeth. Gwerthuso adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yw un o ofynion y monitro perfformiad.

Byddai rhai Byrddau Iechyd Lleol yn archwilio data perfformiad fel rhan o'r broses adolygu, yn fwyaf penodol o ran amserau aros a darparu eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn. Byddai eraill yn defnyddio gwybodaeth a ddarperid gan gynlluniau comisiynu partneriaid Awdurdodau Lleol.

Cafwyd ymatebion tebyg i'r Awdurdodau Lleol, lle roedd nifer o Fyrddau Iechyd Lleol yn disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hyrwyddo. At hyn, defnyddid y dulliau arferol o arddangos gwybodaeth ar wardiau ac mewn mannau cyhoeddus ac mewn 'sioeau teithiol' achlysurol, gan roi gwybodaeth i gleifion a pherthnasau yn ystod prosesau asesu. Dywedodd un Bwrdd Iechyd Lleol y byddai ymgyrch yn cael ei chynnal yn 2012 ac y byddai llawer o sylw i eiriolaeth yn rhan o lansio'r Mesurau Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

## Cartrefi Gofal

Cafwyd canlyniadau amrywiol o'r sampl o gartrefi gofal a ddewiswyd i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'u trefniadau ar gyfer eiriolaeth. Dywedodd llawer o gartrefi gofal nad oeddent wedi gwneud unrhyw drefniadau, a dywedodd eraill fod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau. O edrych yn fanylach, fodd bynnag, gwelwyd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth amlwg o eiriolaeth annibynnol.

Nid oedd llawer o'r cartrefi gofal yn gwahaniaethu rhwng y sawl sy'n eiriol dros breswylwyr o ddydd i ddydd a'r rheini sy'n darparu cymorth ar gyfer penderfyniadau pwysicach. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a welsom yn ystod yr ymweliadau â chartrefi gofal. Roedd yr ymatebion yn dangos bod nifer o wahanol unigolion yn darparu eiriolaeth, gan gynnwys staff gofal, perthnasau, eiriolwyr annibynnol cyffredinol, eiriolwyr annibynnol o ran galluedd meddyliol a chynrychiolwyr cyfreithiol.

Darparodd y rhan fwyaf o reolwyr y cartrefi gofal wybodaeth ynglŷn â pholisiau ar drefniadau diogelu rhag colli rhyddid, y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed. Fodd bynnag, roedd y ffordd yr oedd y polisiau hyn yn cael eu gweithredu'n anghyson ac yn dibynnu ar reolwr y cartref gofal, a fyddai'n derbyn cyfrifoldeb am gomisiynu a dyrannu hyfforddiant a rhannu gwybodaeth i staff gofal a phreswylwyr.

Drwyddi draw, mae hyn yn creu darlun o eiriolaeth annibynnol yn cael ei hystyried yng nghyswllt diogelu ffurfiol, yn hytrach nag yng nghyswllt llais, dewis a rheolaeth o ddydd i ddydd.

## Adran 5 Argymhellion

- a. Rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wella trefniadau comisiynu, contractio a monitro gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru drwy:
  - Ddull cydlynol a chyson o asesu anghenion a chynllunio ar gyfer darparu eiriolaeth yn eu hardal.
  - Mynnu bod cartrefi gofal yn darparu tystiolaeth bod staff yn ymwybodol o fanteision a rôl eiriolaeth annibynnol.
  - Mynnu bod cartrefi gofal yn dangos eu bod yn hyrwyddo ac yn galluogi darparu eiriolaeth annibynnol
  - Cytuno ar safonau ansawdd safonol a'u datblygu'n sail ar gyfer yr holl eiriolaeth annibynnol sy'n cael ei darparu



- b.** Dylai Llywodraeth Cymru wella comisiynu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol effeithiol ledled Cymru drwy:
- sicrhau bod yr achos busnes a gynllunnir ganddi ar gyfer eiriolaeth yn hybu ymagwedd gydlynol a chyson at asesu anghenion a chynllunio ar gyfer darparu eiriolaeth
  - Mynnu bod eiriolaeth annibynnol yn rhan hanfodol o'r broses gomisiynu

## Canlyniad cyffredinol:

**Bod agwedd gydlynol a chyson at gomisiynu, contractio, darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth annibynnol effeithiol ledled Cymru.**

## Casgliad

- Nid yw'r term eiriolaeth, ac yn benodol dylanwad a phwysigrwydd eiriolaeth annibynnol, yn derm y mae preswylwyr, perthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a'u staff yn ei ddeall yn gyson. Mae barn gul wedi datblygu sy'n ei weld yn gyfystyr â diogelu, datrys anghydfodau a chwynion. Ymddengys hefyd nad oes digon o hyfforddiant ynglŷn â gwasanaethau eiriolaeth ar gael i reolwyr a staff cartrefi gofal. Mae diffyg ymwybyddiaeth amlwg ymhlith preswylwyr o fodolaeth eiriolaeth ac, yn fwyaf arbennig, ynglŷn â sut ac o dan ba amgylchiadau y gallent ei defnyddio.
- Ni fydd pobl hŷn yn cael digon o gefnogaeth ar adegau pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig ac yn ystod cyfnodau pontio. Mae eiriolaeth annibynnol yn arbennig o bwysig o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys pan fydd pobl hŷn yn mynd i gartref gofal (a bydd hynny'n aml yn digwydd yn sgil argyfwng megis profedigaeth neu gyfnod o afiechyd) neu wrth wynebu penderfyniadau pwysig a newidiadau yn eu bywyd megis pen fydd cartref gofal o dan fygythiad neu ei fod ar fin cau.

- Mae rhai pobl hŷn nad oes ganddynt reolaeth dros eu hamgylchedd byw na dewis yn eu bywyd bob dydd. Y rheswm dros hyn yw bod camddealltwriaeth ynglŷn â beth yw llais, dewis a rheolaeth ystyrllon, a phan gyfunir hyn â diffyg eiriolaeth annibynnol, fe all olygu bod rhai pobl hŷn yn mynd i'w cragen yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Weithiau mae cydymffurfio'n gallu cael ei gamddehongli, gan gymryd bod rhywun hŷn yn fodlon ar bethau, er ei fod mewn gwirionedd yn ildio i sefyllfa nad oes ganddo unrhyw reolaeth drosti.
- Nid oes trefniadau cyson a chynhwysfawr ar gyfer arolygu a monitro'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol. Mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o eiriolaeth. Mae rôl yr AGGCC yn hollbwysig o ran ategu proffil a phwysigrwydd eiriolaeth mewn cartrefi gofal ac mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o eiriolaeth a darparu hyfforddiant yn ei chylch i staff yr Arolygiaeth.
- Nid oes cysondeb na fframwaith clir i'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol bresennol. Nid oes dull cydlynol a chyson o asesu angen a chynllunio ar gyfer darparu ac ariannu eiriolaeth ar hyn o bryd. Nid yw contractau comisiynu gyda chartrefi gofal yn nodi'n benodol pa drefniadau a ddylai fod ar waith gan gartrefi gofal ar gyfer eiriolaeth annibynnol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion ynglŷn ag arferion da i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, sy'n gosod meincnod ar gyfer gwella'r cyfle i bobl hŷn gael gafael ar y cymorth annibynnol sydd ei angen arnynt. Bwriedir a disgwylir i'r argymhellion hyn arwain at newid mawr a pharhaol yn y ffordd y gwelir ac y deellir eiriolaeth, a mwy o gysondeb a gwell safon o ran gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ledled Cymru sy'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan bobl hŷn a chan y rheini sy'n rhoi cymorth iddynt.

Dyma'r canlyniadau y bwriedir i'r argymhellion hyn eu sicrhau:

- Mae'r staff gofal yn deall ac yn hyrwyddo cysyniad llais, dewis a rheolaeth a rôl eiriolaeth yn hyn.
- Bod mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth, gan gynnwys o rôl a dylanwad eiriolaeth annibynnol, ledled Cymru.

- Bod ymwybyddiaeth o'r rôl, a thystiolaeth o ddefnyddio eiriolaeth annibynnol yn bwrw gwreiddiau yn y trefniadau rheoleiddio ac arolygus.
- Bod agwedd gydlynol a chyson at gomisiynu, contractio, darparu a monitro gwasanaethau eiriolaeth annibynnol effeithiol ledled Cymru.

Bwriad cyffredinol y gwaith hwn yw sicrhau bod pobl hŷn, pan fyddant yn wynebu sefyllfaoedd allweddol lle y byddant yn agored i niwed ac yn gwneud penderfyniadau hollbwysig ynglŷn â symud i leoliad gofal cymdeithasol neu ynglŷn â newid lleoliad, yn gwybod am yr wybodaeth, y cyngor a'r eiriolaeth annibynnol sydd ar gael ac yn gallu cael gafael arnynt, a thrwy hyn yn gallu gwneud y penderfyniadau iawn ar yr adeg benodol honno yn eu bywydau.

Bydd y comisiwn yn gwneud ei ran i sicrhau y byddwn dros y ddwy flynedd nesaf yn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r nod hwn yng Nghymru.

# Atodiad 1: Diffinio Eiriolaeth

## Eiriolaeth Gyffredinol

Darperir y math hwn o eiriolaeth ar sail wirfoddol, gan sefydliadau'r trydydd sector gan amlaf. Nid oes gofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i ddarparu eiriolaeth gyffredinol.

## Eiriolaeth Statudol

O dan rai amgylchiadau, mae gan unigolion hawl gyfreithiol i gael gwasanaeth a chymorth gan eiriolydd annibynnol.

## Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol

Ar gyfer y rhai hynny sydd â Phroblemau Galluedd Meddyliol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, darperir eiriolaeth gan Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol.

Rhaid cyfarwyddo Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol ac ymgynghori ag ef ar gyfer pobl heb alluedd os nad oes ganddynt neb arall i'w cefnogi (ar wahân i staff cyflogedig) pa bryd bynnag y bydd:

- Un o gyrff y GIG yn cynnig triniaeth feddygol ddifrifol
- Un o gyrff y GIG neu Awdurdod Lleol yn cynnig trefnu lle i aros (neu newid lle i aros) mewn ysbyty neu gartref gofal.
- Gellir gofyn i Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol roi cymorth i rywun sydd heb alluedd i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag:
- Adolygu gofal
- Achosion amddiffyn oedolion, ni waeth a yw'r teulu, ffrindiau neu bobl eraill yn ymwneud â'r sefyllfa neu beidio.

At hynny, o dan rai amgylchiadau, rhaid cyfarwyddo Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol hefyd i gynrychioli rhywun o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), yn ôl diffiniad Deddf Galluedd Meddyliol 2005

## Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)

Os bydd pob dewis arall yn lle darparu gofal yn y ffordd leiaf cyfyngol wedi cael ei ystyried, mae'n bosibl y bydd ysbyty neu gartref gofal yn credu bod angen amddifadu unigolyn o'i ryddid er mwyn gofalu amdano'n ddiogel.

Mewn achosion o'r fath, defnyddir y trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i sicrhau bod amddifadu'r unigolyn o'i ryddid yn gyfreithlon. Mae'r trefniadau diogelu:

- yn sicrhau bod gan yr unigolyn rywun i'w gynrychioli ;
- yn caniatáu hawl i herio'r Llys Gwarchod er mwyn sicrhau nad yw'r penderfyniad i amddifadu'r unigolyn o'i ryddid yn anghyfreithlon;
- yn darparu hawl i adolygu a monitro'r trefniadau amddifadu o ryddid yn rheolaidd.

## **Eiriolydd Annibynnol o ran Iechyd Meddwl**

Bydd Eiriolydd Annibynnol o ran Iechyd Meddwl yn darparu eiriolaeth i'r rhai hynny sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Gall Eiriolwyr Annibynnol o ran Iechyd Meddwl hefyd ddarparu eiriolaeth i bobl sy'n cael eu rhyddhau'n amodol, dan warcheidwaeth neu Orchymyn Triniaeth Gymunedol.

## **Diffiniad y Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn**

Diffinnir eiriolaeth fel trefniadau sy'n cael eu gwneud gan unigolyn er mwyn sicrhau bod pobl ar gael: (a) i gynrychioli barn a dymuniadau pobl hŷn berthnasol yng Nghymru; neu (b) i ddarparu cyngor a chefnogaeth o fath penodol i bobl hŷn berthnasol yng Nghymru<sup>viii</sup>.

## **Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn (OPAAL)**

Datblygwyd diffiniad OPAAL gyda Gweithredu dros Eiriolaeth a dros chwedeg o fudiadau partner cenedlaethol, pob un ohonynt yn rhan o Fforwm Eiriolaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn, ym mis Tachwedd 2008. Mae'n dweud bod:

Eiriolaeth yn cefnogi ac yn galluogi pobl hŷn sy'n ei chael yn anodd cynrychioli eu buddiannau, mynnu eu hawliau, mynegi eu barn, archwilio a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Mae Eiriolaeth Annibynnol yn gefn i'r unigolyn, ni waeth beth yw gofynion a phryderon pobl eraill. Mae'n herio achosion ac effeithiau anghyfiawnder, gorthrwm a cham-drin ac mae'n cynnal hawliau dynol.

## Fframweithiau cyfreithiol a pholisi sy'n berthnasol i eiriolaeth

Fframwaith	Provision	Jurisdiction	Sponsor
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001	Hawl gyfreithiol i ddefnyddwyr y GIG gael gafael ar eiriolaeth cwynion annibynnol	Cymru a Lloegr	Yr Adran Iechyd
Rheoliadau a'r Safonau Cenedlaethol Gofynnol i Gartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn (2004)	Safon 8: Cymorth i gysylltu ag asiantau, e.e. eiriolwyr Safon 11: Cymorth i gael gafael ar eiriolaeth, lle nad oes gan rywun alluedd	Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn 2006	Safon 1: Bod eiriolaeth annibynnol gan ddinasyddion ar gael; bod cyhoeddusrwydd iddi a bod modd i bobl gael gafael arni Safon 10: Bod eiriolaeth ar gael i'r rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl	Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Deddf Galluedd Meddyliol 2005	Hawl gyfreithiol i eiriolaeth (Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) mewn sefyllfaoedd penodol sydd wedi cael eu pennu	Cymru a Lloegr	Yr Adran Iechyd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cynulliad Cymru
Deddf Iechyd Meddwl 1983, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007	Hawl gyfreithiol i eiriolaeth (Eiriolydd Annibynnol o ran Iechyd Meddwl) i'r rhai hynny sydd o dan orfodaeth	Cymru a Lloegr	Yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru
MCA 2005: Trefniadau Rhag Colli Rhyddid	Hawl gyfreithiol i eiriolaeth (Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) i'r rheini y mae'r trefniadau diogelu'n berthnasol iddynt	Cymru a Lloegr	Yr Adran Iechyd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Hawl gyfreithiol i (Eiriolydd Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol) i'r rhai hynny sydd mewn ysbyty yn anffurfiol neu o dan orfodaeth	Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (2010)	Dylid trefnu eiriolaeth i gynorthwyo oedolion agored i niwed yn ystod y broses amddiffyn oedolion	Cymru	Fforymau Amddiffyn Oedolion Cymru
Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru - Fframwaith Gweithredu (2011)	Bydd achos busnes yn cael ei ddatblygu er mwyn cyflwyno gwasanaeth eiriolaeth cynhwysfawr i bobl hŷn	Cymru	Llywodraeth Cymru

# Atodiad 2: Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn<sup>2</sup>

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn annog Llywodraethau i gynnwys yr egwyddorion a ganlyn yn eu rhaglenni cenedlaethol lle bynnag y bo modd:

## Annibyniaeth

1. Dylai pobl hŷn gael mynediad at fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol drwy ddarparu incwm, cefnogaeth gan deulu a chymuned a hunangymorth.
2. Dylai pobl hŷn gael cyfle i weithio neu gael mynediad at gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm.
3. Dylai pobl hŷn allu cymryd rhan yn y broses o benderfynu pa bryd y maent am adael y llafurlu a pha mor gyflym y bydd hynny'n digwydd.
4. Dylai pobl hŷn allu cael gafael ar raglenni addysg a hyfforddiant priodol.
5. Dylai pobl hŷn allu byw mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac y gellir ei addasu ar sail dymuniadau personol a newid o ran galluedd.
6. Dylai pobl hŷn allu byw yn eu cartrefi gyhyd ag sy'n bosibl.

## Cyfranogiad

7. Dylai pobl hŷn barhau'n rhan integredig o'r gymdeithas. Dylent chwarae rhan weithredol yn y broses o lunio a gweithredu polisiau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu lles a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau â'r cenedlaethau iau.
8. Dylai pobl hŷn allu chwilio am gyfleoedd i wasanaethu'r gymuned, a datblygu'r cyfleoedd hynny, ac i weithio fel gwirfoddolwyr mewn lleoliadau sy'n briodol i'w diddordebau a'u gallu.
9. Dylai pobl hŷn allu ffurfio mudiadau neu gymdeithasau pobl hŷn.

## Gofal

10. Dylai pobl hŷn elwa o ofal ac amddiffyniad gan deulu a chymuned yn unol â system gwerthoedd diwylliannol pob cymdeithas.
11. Dylai pobl hŷn allu cael gafael ar ofal iechyd i'w helpu i gadw neu adfer y lles corfforol, meddyliol ac emosiynol gorau posibl ac i atal neu ohirio gwaeledd.

<sup>2</sup> Adroddiad Ail Gynulliad y Byd y Cenhedloedd Unedig ar Heneiddio (2002) [http://www.un.org/ageing/un\\_principles.html](http://www.un.org/ageing/un_principles.html)

12. Dylai pobl hŷn gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol er mwyn cryfhau eu hannibyniaeth, a sicrhau eu bod yn cael gwell amddiffyniad a gofal.
13. Dylai pobl hŷn allu defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol gan ddarparu amddiffyniad, cyfle i adsefydlu ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol mewn amgylchedd dyngarol a diogel.
14. Dylai pobl hŷn allu mwynhau hawliau dynol a rhyddid sylfaenol wrth fyw mewn unrhyw gyfleuster lloches, gofal neu driniaeth, gan gynnwys parch llwyr i'w hurddas, eu credoau, eu hanghenion a'u preifatrwydd ac i'w hawl i wneud penderfyniadau yn ymwneud â'u gofal ac ansawdd eu bywydau

## Hunangyflawniad

15. Dylai pobl hŷn allu manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu potensial yn llawn.
16. Dylai pobl hŷn allu cael gafael ar adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniadol cymdeithas.

## Urddas

17. Dylai pobl hŷn allu byw gydag urddas a sicrwydd ac ni ddylai neb fod yn manteisio arnynt nac yn eu cam-drin yn gorfforol nac yn feddyliol.
18. Dylai pobl hŷn gael eu trin yn deg beth bynnag y bo'u hoedran, eu rhyw, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu hanabledd neu statws arall, a dylent gael eu gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd.

# Atodiad 3: Cyd-destun yr Adolygiad

## Gwaith Ymchwil Parhaus

Yn ogystal â chydabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn barod yn sail i'r Adolygiad hwn, mae gwaith ymchwil parhaus a chynlluniau eraill sy'n uniongyrchol berthnasol.

## Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Ofal Preswyl i Bobl Hŷn

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn. Gwahoddodd



y Pwyllgor unigolion a sefydliadau i ddarparu tystiolaeth i'w gynorthwyo i edrych ar y ddarpariaeth gofal preswyl yng Nghymru a sut y gall ddiwallu anghenion pobl hŷn heddiw ac yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Sut y bydd pobl hŷn yn mynd i ofal preswyl ac i ba raddau y mae gwasanaethau cymunedol amgen ar gael ac yn hwylus, gan gynnwys gwasanaethau ailalluogi a gofal cartref.
- Gallu'r sector gofal preswyl i fodloni'r galw am wasanaethau gan bobl hŷn o ran adnoddau staffio, gan gynnwys cyfuniad sgiliau'r staff a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt, nifer y lleoedd a'r cyfleusterau a lefelau adnoddau.
- Ansawdd gwasanaethau gofal preswyl a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.
- Pa mor effeithiol yw gwasanaethau o ran diwallu anghenion amrywiol pobl hŷn.
- Rheoli cau cartrefi gofal.
- Effeithiolrwydd y trefniadau rheoleiddio ac arolygu ar gyfer gofal preswyl, gan gynnwys i ba raddau y gellid craffu mwy ar hyfywedd ariannol darparwyr gwasanaeth.
- Modelau darparu gofal newydd sy'n cael eu datblygu.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod bylchau yn yr wybodaeth ynglŷn â phrofiadau amrywiol pobl hŷn. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol bod gwaith sy'n mynd rhagddo'n dechrau rhoi sylw i rai o'r meysydd hyn nad oes llawer o ymchwil wedi'i gwneud iddynt.

## **Darparu gwasanaethau cynhwysol a gwrthwahanïaethol i bobl hŷn lesbiaid, hoyw a deurywiol sy'n byw mewn amgylchedd gofal preswyl yng Nghymru**

Dechreuodd yr astudiaeth 2 flynedd hon, sy'n cael ei hariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Ebrill 2011. Mae'n ceisio edrych ar y modd y mae polisïau Cymru yn cael eu trosi a'u rhoi ar waith ar lefel leol, yn fwyaf penodol ym mholisïau ac arferion amgylchedd gofal preswyl i bobl hŷn sy'n ystyried eu hunain yn bobl lesbiaid, hoyw a deurywiol. Mae iechyd rhywiol ac anghenion cymdeithasol preswylwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn yn aml iawn yn cael eu hanwybyddu neu nid ydynt yn cael eu cydnabod mewn polisi ac ymarfer. Mae amcanion yr astudiaeth hon yn cynnwys archwiliad o'r modd y mae pobl lesbiaidd, hoyw a

deurywiol hŷn yn cael eu cynnwys a'u cefnogi mewn amgylchedd gofal yng Nghymru. Bydd amgylchedd gofal yn cynnwys Extra-Care, lleoliadau gofal preswyl a chartrefi nyrsio, gan gynnwys lleoliadau i'r henoed bregus eu meddwl.

Bydd yr astudiaeth yn ceisio penderfynu i ddechrau i ba raddau y mae anghenion preswylwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn yn cael eu cynnwys mewn Adroddiadau Arolygu cartrefi gofal. Yn ail, bydd yn ystyried agwedd staff gofal at breswylwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac edrychir ar ba arferion da sydd ar waith er mwyn hybu eu hawliau a'u buddiannau. Gwneir hyn drwy ddefnyddio dulliau mesur agweddau at arferion rhywiol a chanfyddiadau pobl hŷn. Yn drydydd, bydd llunwyr polisïau a grwpiau budd yn cymryd rhan mewn grwpiau ffocws er mwyn gweld sut y mae preswylwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu cynnwys mewn polisïau. Yn olaf, gofynnir am farn a phrofiadau pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn (50 a throsodd) drwy gyfweiliadau lled-strwythuredig ynglŷn â'u gobeithion a'u disgwyliadau o ran gofal preswyl yn y dyfodol.

Bydd y canfyddiadau'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â sut y gallant ddarparu gofal cynhwysol a chyfartal i breswylwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i ddatblygu hyfforddiant staff a chynorthwyo amgylchedd gofal i ddarparu gwasanaethau gwrthwahaniaethol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon hefyd yn helpu i asesu safon y gofal sy'n cael ei ddarparu wrth barchu a hyrwyddo bywydau rhywiol preswylwyr a diwallu anghenion preswylwyr sy'n eu hystyried eu hunain yn bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol o ran eu perthynas â phobl eraill a'r cymorth sydd ei angen arnynt.

## **Yn eu geiriau eu hunain: Lleisiau dynion a menywod Cymry Affricanaidd-Garibiaidd a Duon**

Dros y degawdau, mae mwy o waith ymchwil wedi'i wneud ym maes parch ac oedran yn y DU ac yn rhyngwladol. Er bod y dystiolaeth ymchwil wedi bod o gymorth mawr er mwyn gwella cysyniad parch ac ehangu ein dealltwriaeth o brofiadau pobl hŷn o ofal a'u disgwyliadau, ychydig o astudiaethau sydd wedi ceisio edrych ar gysyniad urddas a sut y mae pobl yn gweld gofal gydag urddas, yng nghyswllt hunaniaeth gymdeithasol a hiliaeth, er mwyn datblygu

dealltwriaeth o'r effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl y mae hyn yn ei chael ar y profiad gofal. Nod y gwaith ymchwil hwn oedd mynd i'r afael â bylchau o'r fath yng Nghymru.

Dangosodd yr astudiaeth fod arwyddion cymdeithasol fel ethnigrwydd a hunaniaeth ddiwylliannol yn dylanwadu ar sut y bydd pobl yn dehongli urddas a hefyd eu bod yn effeithio ar y ffordd y bydd pobl yn meddwl y byddent yn cael eu trin pan fyddent yn cael gofal. Un o'r prif negeseuon yw ei bod yn bwysig rhoi sylw i'r elfennau hyn, a hefyd i'r ffaith bod angen datblygu dealltwriaeth o effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl ffactorau o'r fath ar y profiad gofal. Lleisiwyd pryder ynglŷn â ffynonellau cymorth a gofal allanol, gan rai, yng nghyswllt eu hunaniaeth bersonol a pheidio â chael eu trin â gofal a pharch oherwydd eu cefndir ethnig neu ddiwylliannol.

### **Lleisiau Coll: Adolygiad o'r eiriolaeth annibynnol broffesiynol sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen**

Cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru yr adolygiad hwn o drefniadau gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol yng Nghymru yn 2011. Canfu fod eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei darparu ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Er hyn, mae rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yng Nghymru yn dal heb fod yn ymwybodol o'u hawl i gael eiriolydd proffesiynol annibynnol i gynrychioli eu barn. Mae plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru, sydd am gael cymorth a chynghor eiriolydd proffesiynol annibynnol i'w helpu i gael llais, yn cael cam difrifol.

Er bod llawer yn cael gwasanaeth rhagorol gan yr eiriolwyr proffesiynol annibynnol, nid yw'r cyfle hwnnw ar gael i bawb. Mae strwythurau cenedlaethol a lleol i fod i gael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod modd i'r holl blant a phobl ifanc hyn gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol a chael budd ohonynt. Mae'r adolygiad yn rhestru nifer o brif ganfyddiadau, gan gynnwys y canlynol:

- Yn aml iawn nid yw plant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael cysylltiad ag eiriolydd proffesiynol annibynnol yn deall beth mae 'eiriolaeth' yn ei olygu.
- Nid yw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed bob amser yn sylweddoli beth yw manteision eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac nid ydynt yn ystyried bod gan y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy hawl awtomatig i gael cymorth eiriolydd.

- Nid oes digon o eglurder na chysondeb ynglŷn â'r ffordd y mae gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael eu comisiynu yng Nghymru. Mae'r ddibyniaeth bresennol ar gontractau tymor byr yn tanseilio sefydlogrwydd y ddarpariaeth a datblygu gwasanaethau cadarn.
- Nid yw gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal neu blant mewn angen yng Nghymru'n cael eu monitro, eu harolygu a'u rheoleiddio'n flynyddol nac yn systematig.

## **Fframweithiau Cyfreithiol a Pholisi sy'n berthnasol i Eiriolaeth**

Mae'r fframwaith cyfreithiol a pholisi ar gyfer eiriolaeth annibynnol wedi newid llawer yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Roedd astudiaeth gwmpasu gychwynnol Dunning (2010) yn ystyried sut yr oedd datblygiadau mewn polisi yn ddiweddar wedi digwydd yn ddigyswllt yng Nghymru, a bod sail dystiolaeth fwy sylfaenol yn datblygu yn Lloegr. Fodd bynnag, mae Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru ac addewid a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru'n gyfle da i edrych ar yr achos busnes o blaid gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn yng Nghymru. At hyn, mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn cynnig cyfle unigryw i roi pwerau gwneud rheoliadau i Lywodraeth Cymru i'w helpu i ddatblygu gwasanaeth eiriolaeth mwy cydlynol a chynhwysfawr ledled Cymru.

## **Atodiad 4: Methodoleg**

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon rhwng Medi 2011 a Chwefror 2012.

Defnyddiwyd nifer o wahanol dulliau gan gynnwys (i) cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb lled-strwythuredig gyda phreswylwyr hŷn, perthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a staff cartrefi gofal, (ii) cyfweiliadau ffôn lled-strwythuredig gyda pherthnasau, (iii) grwpiau ffocws gydag Arolygwyr AGGCC a darparwyr eiriolaeth annibynnol a (iv) dadansoddiad dogfennol o wybodaeth a gafwyd gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, a rheolwyr cartrefi gofal Awdurdodau Lleol a chartrefi gofal annibynnol ynglŷn â'r trefniadau presennol ar gyfer eiriolaeth i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Dewiswyd sampl bychan, ond cynrychioladol, o gartrefi gofal o bob cwr o Gymru ar gyfer yr astudiaeth hon a oedd yn adlewyrchu cyd-destun daearyddol a diwylliannol amrywiol Cymru. Cafodd y data ar gyfer yr adolygiad hwn eu casglu'n uniongyrchol gan staff Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru er mwyn sicrhau cysylltiad ystyrion â phobl hŷn a chlywed a deall eu barn a'u profiad o fynd i gartref gofal a byw mewn cartref gofal.

Mae'r astudiaeth hon yn unigryw gan ei bod yn defnyddio'r Pwerau mynediad ac adolygu sydd ar gael i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac roedd hynny'n golygu bod modd mynd i gartrefi gofal mewn ffordd na welwyd mo'i thebyg o'r blaen mewn astudiaethau eraill o'r math.

## **Cael Gwybodaeth**

Ym Medi 2011, anfonasom lythyr at gyrff sy'n cael eu rheoleiddio, gwasanaethau ac unigolion (a allai fod yn gysylltiedig â'r adolygiad), yn eu hysbysu o'n bwriad i gynnal adolygiad o drefniadau eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys pob un o'r 22 Awdurdod Lleol, 7 Bwrdd Iechyd Lleol (a allai fod â threfniadau comisiynu ar y cyd) yng Nghymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant a phob cartref gofal cofrestredig ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Yn Hydref 2011, anfonasom lythyr arall yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â threfniadau eiriolaeth gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol a'r 7 Bwrdd Iechyd Lleol. Cysylltwyd hefyd â 143 o gartrefi gofal, yn cynnwys detholiad o 5 cartref gofal o bob ardal awdurdod lleol a 33 cartref gofal a nodwyd drwy dîm Gwybodaeth ac Ymholiadau'r Comisiwn. Defnyddiwyd adroddiadau arolygu AGGCC hefyd mewn ymchwil desg er mwyn dewis cartrefi gofal. Roedd hyn yn sicrhau bod pob categori gofal yn cael ei gynnwys (e.e. iechyd meddwl/dementia) a hefyd ein bod yn casglu gwybodaeth gan gartrefi a oedd yn cael eu rhedeg gan Awdurdodau Lleol yn ogystal â'r sectorau preifat, gwirfoddol ac annibynnol.

## **Dewis yr Ardaloedd Awdurdodau Lleol**

Ar gyfer yr Adolygiad, dewiswyd 5 ardal Awdurdod Lleol a oedd, i'r graddau yr oedd hynny'n rhesymol bosibl, yn cynrychioli cyd-destun diwylliannol a demograffig amrywiol Cymru, yn cael ei adlewyrchu drwy'r canlynol:

- Cyfran debygol y siaradwyr Cymraeg
- Lleoliadau gwledig / trefol / cyn-ddiwydiannol / canol dinas
- Cartrefi gofal o dan fygythiad neu wrthi'n cael eu cau
- Cyfran debygol y preswylwyr cartrefi gofal heb deulu neu ffrindiau wrth law
- Cyfran debygol yn ariannu eu hunain

## **Dewis y Cartrefi Gofal**

Dewiswyd 16 cartref gofal i'w cynnwys (Atodiad 4) ac ysgrifennu at bob un o'r rheini yn dweud wrthynt ein bod wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth a bod gennym hawl i fynd i'r cartref gofal i gynnal yr adolygiad. Yn dilyn y llythyrau hyn,

cysylltodd aelod o'r tîm ymchwil â'r darparwyr cartrefi gofal a/neu'r rheolwyr ar y ffôn i wneud trefniadau ar gyfer yr ymweliadau.

Cyn yr ymweliadau, gofynnwyd i'r darparwyr ac i reolwyr cartrefi gofal sicrhau bod yr holl breswylwyr, y perthnasau a staff gofal y cartref yn cael gwybod am yr ymweliad a gofyn iddynt a fyddent yn hoffi cymryd rhan. Yna anfonwyd taflenni gwybodaeth i'r cartref i'w dosbarthu. Gofynnodd y tîm ymchwil i'r darparwyr/rheolwyr roi gwybod iddynt ymlaen llaw os oedd angen unrhyw gyfarpar cymorth, fel dolen glyw neu wasanaethau dehongli. Roedd nifer o'r tîm ymchwil yn siarad Cymraeg yn rhugl a chafodd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau mewn cartrefi gofal mewn ardaloedd lle roedd yn well gan bobl siarad Cymraeg eu cynnal ganddynt hwy.

Caniataodd pob darparwr a rheolwr cartref gofal i'r tîm ymchwil fynd i'w cartref gofal. Fel rhan o'r ymweliadau, ymwelodd y tîm ymchwil â 2 gartref gofal arbenigol i bobl hŷn oedd a dementia datblygedig. Roeddent yn deall nad oedd y preswylwyr hŷn yn debygol o gyfranogi llawer, os o gwbl, ond teimlid ei bod yn bwysig edrych ar drefniadau eiriolaeth ar gyfer pobl hŷn nad oeddent yn gallu siarad drostynt eu hunain. Yn y cartrefi gofal hyn, cynhaliwyd cyfweliadau gyda rheolwyr y cartref gofal, y staff a pherthnasau. Yn ychwanegol at hyn, roedd 3 o'r cartrefi gofal a ddewiswyd wrthi'n cael eu cau neu o dan fygythiad.

## **Moeseq**

Drwy gydol y broses ymchwil, roedd yr astudiaeth yn dilyn codau ymarfer moesegol y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol (SRA) a Chymdeithas Gerontoleg Prydain (BSG). Roedd ein polisi moeseg yn nodi'r egwyddorion a oedd yn tywys yr astudiaeth a sut y dylid eu rhoi ar waith.

Dilynwyd polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed y Comisiwn, sy'n rhoi dyletswydd ar staff y Comisiwn i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â cham-drin unigolyn hŷn, drwy'r adeg yn ystod yr ymweliadau.

Rhagwelid y byddai preswylwyr hŷn a oedd yn fregus a/neu â nam gwybyddol yn her benodol, ac y byddai angen ystyried ac asesu'n ofalus i ba raddau y gallai'r rhai a fyddai'n cymryd rhan ddeall pwrpas yr adolygiad a gwneud penderfyniadau ynglŷn â chymryd rhan yn y cyfweliadau. Rhoddwyd taflenni gwybodaeth i breswylwyr hŷn cyn yr ymweliadau ac anogwyd hwy i drafod yr astudiaeth gyda theulu, ffrindiau a staff a gofyn cwestiynau y gellid eu trosglwyddo i aelodau o'r tîm ymchwil. Roedd gan y tîm ymchwil bolisi o beidio â rhwystro preswylwyr hŷn â dementia ysgafn i gymedrol a oedd â'r gallu i gyfathrebu nac ychwaith y rhai hynny a oedd â nam ar eu golwg neu eu clyw. Roedd y tîm ymchwil yn dibynnu i ddechrau ar wybodaeth gan staff y cartref gofal ynglŷn â phwy oedd â digon o alluedd i ddeall a chydsynio i

gymryd rhan yn yr ymchwil. Roedd y tîm ymchwil, fodd bynnag, yn awyddus i glywed y lleisiau tawelach yn y cartref gofal a threuliasant amser yn siarad ac yn rhyngweithio â phreswylwyr hŷn eraill ar wahân i'r rhai y cyfeiriwyd hwy atynt gan reolwyr y cartrefi gofal. Defnyddiodd y tîm ymchwil y prawf galluedd dau gam (Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i benderfynu drostynt eu hunain a oedd unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad deallus i gymryd rhan.

Cyn cynnal y cyfweiliadau, cafwyd cydsyniad ysgrifenedig gan bob unigolyn a oedd am gymryd rhan. Dywedwyd wrthynt y gallent newid eu meddwl ynglŷn â chymryd rhan yn y cyfweiliad unrhyw bryd a gwrthod gadael i'w data gael eu defnyddio yn yr ymchwil. Byddai gwybodaeth a roddwyd ganddynt yn cael ei dileu wedyn. Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod unrhyw ran o'r astudiaeth.

## Cyfweiliadau

Defnyddiwyd cyfweiliadau gyda phreswylwyr hŷn i ganfod a oeddent yn gwybod bod eiriolaeth annibynnol ar gael, yn deall beth oedd eiriolaeth annibynnol ac yn gwybod o dan ba amgylchiadau y gallai fod o fudd iddynt. Roedd cyfweiliadau gyda pherthnasau a rheolwyr a staff cartrefi gofal yn bwysig er mwyn canfod beth yw'r ddealltwriaeth ehangach o eiriolaeth ac a yw ei phwysigrwydd mewn cartrefi gofal yn cael ei gydnabod. Cofnododd y tîm ymchwil yr hyn y sylwodd arno yn y cartref gofal hefyd, megis ymddangosiad cyffredinol yr amgylchedd ffisegol (gan gynnwys awyrgylch, naws ac arogl), ymddangosiad ffisegol y preswylwyr hŷn (gan gynnwys pa mor effro oeddent ac ym mhle yr oeddent yn eistedd), sut yr oeddent yn rhyngweithio'n gorfforol â staff ac a oedd gwybodaeth ar gael ac yn hawdd cael gafael arni am drefniadau eiriolaeth yn y cartref gofal.

Ym mhob un o'r 16 cartref gofal, ceisiodd y tîm ymchwil gynnal hyd at 5 cyfweiliad manwl â phreswylwyr hŷn, 2 gyfweiliad â pherthnasau, 1 cyfweiliad â rheolwr y cartref gofal a hyd at 3 cyfweiliad â staff y cartref gofal.

Roedd y cyfweiliadau â phreswylwyr hŷn yn ymdrin â materion fel sut yr oeddent yn teimlo bod eu barn a'u safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi yn y cartref, e.e. sut yr oeddent yn cael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd a phenderfyniadau pwysig, pwy oedd yn eu cynorthwyo i wneud y penderfyniadau hyn ac i ba raddau yr oeddent yn ymwybodol bod eiriolaeth annibynnol ar gael a sut ac o dan ba amgylchiadau y gallent fanteisio ar eiriolaeth annibynnol. Roedd y cyfweiliadau gyda pherthnasau'n ceisio edrych ar eu dealltwriaeth o eiriolaeth: pa mor bwysig oedd eiriolaeth yn amgylchedd y cartref gofal yn eu barn hwy a sut yr oeddent yn cynorthwyo'u perthnasau i wneud penderfyniadau.

Roedd y cyfweiliadau gyda darparwyr a rheolwyr cartrefi gofal hefyd yn ceisio

edrych ar eu dealltwriaeth o eiriolaeth yn gyffredinol ac i ba raddau yr oedd y trefniadau a oedd ar gael yn y cartref yn effeithiol o ran cefnogi annibyniaeth preswylwyr hŷn a'u cynorthwyo i wneud penderfyniadau.

Roedd y cyfweiliadau hefyd yn ymwneud â darparu hyfforddiant i reolwyr a staff a phrosesau er mwyn penderfynu sut ac o dan ba amgylchiadau y mae preswylwyr hŷn yn cael eu cynorthwyo i gael gafael ar wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Roedd cyfweiliadau â staff gofal yn ymdrin â'u dealltwriaeth o eiriolaeth a'u rôl yn cynorthwyo'r preswilydd hŷn i wneud penderfyniadau yn y cartref.

Roedd y cyfwelwyr yn gwneud nodiadau yn ystod y cyfweiliad a chafodd ymatebion i gwestiynau penagored eu recordio ar dâp. Cafodd ffeiliau llais y cyfweiliadau eu trawsgrifio a mewnoforiwyd y trawsgrifiadau i feddalwedd arbenigol er mwyn eu dadansoddi.

## Y Sampl a'r Cyfraddau Ymateb

TCyfwelwyd 46 o breswylwyr hŷn gan y tîm ymchwil. Roedd amrywiadau disgwylidig yn y cyfraddau ymateb disgwylidig a'r rhai a gafwyd oherwydd gwahaniaethau rhwng cartrefi gofal o ran maint (nifer y preswylwyr yn byw yn y cartref gofal), iechyd corfforol, galluedd meddyliol a pharodrwydd y preswylwyr hŷn i gymryd rhan yn y cyfweiliad. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd dau o'r cartrefi gofal yr ymwelwyd â hwy'n gartrefi gofal arbenigol i bobl hŷn a oedd â dementia datblygedig. O ganlyniad, ni chyfwelwyd unrhyw breswylwyr hŷn gan fod y tîm ymchwil wedi gweld a chasglu nad oedd gan yr unigolion ddigon o alluedd i gydsynio i gymryd rhan yn y cyfweiliad na deall pwrpas yr ymweliad. Rheolwyr y cartrefi gofal wnaeth ddewis preswylwyr hŷn i gymryd rhan yn yr astudiaeth a chysylltu â hwy yn y lle cyntaf. Cafodd preswylwyr hŷn eu recriwtio ar y diwrnod hefyd ar ôl cyfarfod y tîm ymchwil, siarad â hwy a chytuno i gymryd rhan.

Cyfwelwyd cyfanswm o 22 o berthnasau, 10 yn bersonol yn ystod ymweliadau'r tîm ymchwil â'r cartrefi gofal a 12 arall dros y ffôn yn ddiweddarach. Fel rheol, rhoddwyd gwybod i'r perthnasau am yr ymweliadau gan reolwr y cartref gofal. Rheolwr y cartref gofal hefyd oedd yn gofyn iddynt gymryd rhan. Cafodd rhai perthnasau eu recriwtio ar ddiwrnod ymweliad y tîm ymchwil hefyd a chytunasant i gael eu cyfweld yn bersonol neu ar ddyddiad diweddarach dros y ffôn. Cyfwelodd y tîm ymchwil 13 rheolwr cartref gofal a 26 aelod o staff cartrefi gofal.

## Grwpiau Ffocws

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag Arolygwyr AGGCC a darparwyr eiriolaeth annibynnol er mwyn profi canfyddiadau cychwynnol yr astudiaeth a chael eu



safbwyntiau hwy ynglŷn â darparu a monitro eiriolaeth mewn cartrefi gofal. Cynhaliwyd 3 grŵp ffocws: 2 ar gyfer darparwyr eiriolaeth (1 yn Ne Cymru ac 1 yng Ngogledd Cymru) ac 1 ar gyfer Arolygwyr AGGCC, gyda chynrychiolwyr o'r 4 Arolygiaeth Gofal a Gwaith Cymdeithasol rhanbarthol sydd yng Nghymru.

Pwrpas y grwpiau ffocws gydag Arolygwyr AGGCC oedd dilysu canfyddiadau cynnar, canfod heriau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r broses arolygu, cael barn arolygwyr ynglŷn â'r sefyllfa bresennol mewn cartrefi gofal o ran cefnogaeth eiriolaeth i bobl hŷn a phenderfynu a yw prosesau arolygu wedi eu moderneiddio ac arolygiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n ddefnyddiol er mwyn deall rheolaeth ac eiriolaeth mewn cartrefi gofal.

Pwrpas y grwpiau ffocws gyda darparwyr eiriolaeth oedd canfod a oedd darparwyr yn diffinio eiriolaeth yn yr un ffordd. Trafodwyd hefyd y trefniadau presennol ynghyd ag annibyniaeth cynlluniau eiriolaeth, pa mor hawdd oedd cael gafael arnynt, beth oedd ar gael a faint o bobl oedd yn manteisio arnynt, yn ogystal â chomisiynu, arolygu ac enghreifftiau o arferion da.

## Cyfeiriadau

<sup>i</sup> Dunning, A (2010) Eiriolaeth gyda Phobl Hŷn yng Nghymru - astudiaeth gwmpasu gychwynnol, Y Ganolfan Heneiddio Arloesol

<sup>ii</sup> Pwysigrwydd Eiriolaeth 3, Age Cymru (2011)

<sup>iii</sup> Elsmore, S. a Griffiths, S. (2011) Eiriolaeth a Chartrefi Gofal, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

<sup>iv</sup> Burholt, V, Beech, C., and Winter, B. (2011) The Closures of Care Homes for Older People in Wales: Prevalence, Process and Impact, Y Ganolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe

<sup>v</sup> [http://www.olderpeoplewales.com/en/Publications/pub-story/12-06-24/Commission\\_response\\_to\\_Social\\_Services\\_Wales\\_Bill.aspx](http://www.olderpeoplewales.com/en/Publications/pub-story/12-06-24/Commission_response_to_Social_Services_Wales_Bill.aspx)

<sup>vi</sup> Burholt, V., Beech, C., and Winter, B. (2012) The Closure of Care Homes for Older People in Wales: Prevalence, Process and Impact, Y Ganolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe.

<sup>vii</sup> Defnyddir Nod Ansawdd Perfformiad Gweithredu dros Eiriolaeth gan nifer o ddarparwyr eiriolaeth <http://actionforadvocacy.org.uk/articleServlet?action=display&article=1445&articletype=60>

<sup>viii</sup> Section 5(4)(a)&(b) Commissioner for Older People (Wales) Act, 2006.

<sup>viii</sup> 'In their own words', Voices of African-Caribbean and Black Welsh Men and Women (2012), Wales Ethnicity Research Collaboration

# Rhagor o Wybodaeth

Dunning, A (2010) Eiriolaeth gyda Phobl Hŷn yng Nghymru - astudiaeth gwmpasu gychwynnol, Y Ganolfan Heneiddio Arloesol

Dunning, A (Mehefin 2010).Astudiaeth gwmpasu ar eiriolaeth gyda phobl hŷn yng Nghymru i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Elsmore, S. a Griffiths, S (2011) Eiriolaeth a Chartrefi Gofal, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Burholt, V., Beech, C., a Winter. B. (2012) The Closure of Care Homes for Older People in Wales. Prevalence, Process and Impact. Y Ganolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe.

Manthorpe, J. a Martineau, S. (2009). Scoping Review of the Research and Evidence Base Relating to Advocacy Services and Older People's Entry into Care Homes in England. Llundain: Uned Ymchwil y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, King's College Llundain.

Adroddiad Ail Gynulliad Byd y Cenhedloedd Unedig ar Heneiddio (2002)  
[http://www.un.org/ageing/un\\_principles.html](http://www.un.org/ageing/un_principles.html)